**Yn Amodol ar Gytundeb**

**DYDDIEDIG [ ] 2019**

**(1) S4C**

**(2) [ ]**

---

**CYTUNDEB I DDARPARU GWASANAETHAU RHEOLI PROSIECT YMGYRCH A CHYNHYRCHU DEUNYDD DIGIDOL**

---

**CYNNWYS**


1. Diffiniadau a Dehongliad
2. Y Gwasanaethau
3. Cynhyrchu'r Deunydd Digidol
4. Cymeradwyaeth a Rheolaeth Olygyddol
5. Safonau Iaith Gymraeg
6. Iechyd a Diogelwch
7. Amddiffyn Plant
8. Trefn Gyfathrebu a Chyfarfodydd Adolygu
9. Staffio
10. Personél Allweddol
11. Eiddo Deallusol
12. Gwarantau
13. Materion Ariannol
14. Indemniad
15. Yswiriant
16. Terfynu
17. Canlyniadau Dirwyn i ben neu Derfynu
18. Oedi a Hawliau Camu i Mewn
19. Argyfwng
20. Aseinio ac Is-Gontractio
21. Force Majeure
22. Gwrth-Gyfrif
23. Rhybuddion
24. Rhwymedïau ac Ildio
25. Cyhoeddiadau a Chyfrinachedd
26. Diogelu Data
27. DRhG
28. Atal llygredigaeth a Thwyll
29. Dehongliad


**Atodlenni**


1. Gwasanaethau
2. Gwarantau
3. Personél Allweddol
4. Ffi
5. Y Gyfundrefn Gyfathrebu
6. Cynllun Argyfwng
7. Trwydded Brand

GWNEIR Y CYTUNDEB HWN y [ ] dydd o [ ] 2019

**RHWNG:**

(1) S4C o Ganolfan S4C: Yr Egin, Caerfyrddin, SA31 3EQ ("**S4C**"); a

(2) [ ] [Rhif y Cwmni: [ ] y mae ei gyfeiriad cofrestredig wedi'i leoli yn [*nodwch y cyfeiriad*] ("y **Cwmni**")

**RHAGARWEINIAD:**

Yn dilyn cyhoeddiad gan S4C o wahoddiad i dendro er mwyn darparu gwasanaethau rheoli prosiect ymgyrch a chynhyrchu deunydd digidol a chyflwyniad gan y Cwmni o dendr, mae S4C yn dymuno ymrwymo i gytundeb gyda'r Cwmni er mwyn darparu'r Gwasanaethau yn unol â'r amodau a thelerau a nodir yn y Cytundeb hwn.

**CYTUNIR** fel a ganlyn:

**1. Diffiniadau a Dehongliad**

Yn y Cytundeb hwn:

1.1 bydd gan y geiriau a'r ymadroddion canlynol yr ystyron canlynol oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall:

| | |
|---|---|
| "Canllawiau Brand S4C" | canllawiau brand S4C sydd i'w cael ar wefan S4C http://www.s4c.cymru/media/media_assets/Logo_S4C.pdf fel y'i diweddarir o dro i dro; |
| "Cyfreithiau Diogelu Data" | (i) Deddf Diogelu Data 2018 a'r GDPR ac unrhyw gyfreithiau, rheoliadau a deddfwriaeth eilaidd gweithredu cenedlaethol, fel y'u hamrywir neu y'u diwygir o bryd i'w gilydd, yn y DU; ac yna (ii) unrhyw ddeddfwriaeth olynol i'r GDPR neu Ddeddf Diogelu Data 2018; ac (iii) unrhyw ddeddfwriaeth diogelu data newydd cenedlaethol; |
| "Chwarter" | cyfnod o 3 mis calendr yn gorffen ar 30 Mehefin, 30 Medi, 31 Rhagfyr neu 31 Mawrth mewn unrhyw flwyddyn galendr o ddyddiad y Cytundeb hwn; |
| "Cwmni Olynol" | pob cwmni a fydd yn darparu unrhyw wasanaeth sydd yn cyfateb â'r Gwasanaethau, ar ôl i'r Cytundeb hwn ddod i ben neu ar ôl terfynu'r Cytundeb hwn; |
| "Cwmni Teulu" | unrhyw is-gwmni neu gwmni dal o dro i dro ac unrhyw is-gwmni o'r cyfryw gwmni dal o dro i dro (fel y diffinnir 'cwmni dal' ac 'is-gwmni' yn adrannau 1159 Deddf Cwmnïau 2006); |
| "Cyfreithiau Perthnasol" | yr holl gyfreithiau, rheolau, rheoliadau a safonau rhanbarthol, cenedlaethol neu ryngwladol gan gynnwys y rhai a weithredir gan unrhyw lywodraeth neu awdurdod rheoleiddio, a holl safonau a chanllawiau arfer perthnasol y diwydiant a bennir gan unrhyw gorff hunanreoleiddiol sydd yn |

| | |
|---|---|
| | berthnasol o bryd i'w gilydd i ddarparu'r Gwasanaethau, gan gynnwys heb gyfyngiad y Cyfreithiau Diogelu Data; |
| "Cynllun Argyfwng" | cynllun argyfwng y Cwmni a nodir yn Atodlen 7; |
| "Cynnyrch y Gwasanaethau" | holl gynhyrchion y Gwasanaethau sydd yn cael eu creu, eu caffael neu eu datblygu gan neu ar ran y Camni a'r Staff wrth ddarparu'r Gwasanaethau gan gynnwys heb gyfyngiad y Deunydd Digidol, fel a nodir yn fwy helaeth yn Atodiad 1; |
| "Cynrychiolydd S4C" | Ruth Meadows/Amanda Rees neu unrhyw bersonau eraill o'r fath a hysbysir gan S4C i'r Cwmni yn ysgrifenedig o bryd i'w gilydd yn ystod y Tymor; |
| "Cytundeb" | y cytundeb hwn gan gynnwys y Rhagarweiniad ac unrhyw ddogfen y cyfeirir ati yn y cytundeb hwn, wedi ei chwblhau neu i'w chwblhau yn unol â'i delerau; |
| "Data Personol" | mae ganddo'r ystyr a roddir i'r term yn y Cyfreithiau Diogelu Data; |
| "Deddf" | Deddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988; |
| "Deunydd Digidol" | y deunydd digidol a gynhyrchir gan y Cwmni, gan gynnwys clipiau fideo, gwe-benodau, eitemau, delweddau llonydd, GIFs, animeiddiadau, neges destun a/neu bostiad cyfryngau cymdeithasol (gan gynnwys er mwyn osgoi amheuaeth, unrhyw ddeunydd cysylltiedig fel tagiau, sylwadau a metadata) yr holl neu unrhyw isdeitlau, sain-ddisgrifiad, defnydd o iaith arwyddion neu elfennau rhyngweithiol sy'n gysylltiedig â'r cyfryw ddeunydd digidol; |
| "Diwrnod Gwaith" | unrhyw ddiwrnod ar wahân i ddydd Sadwrn, dydd Sul neu wyliau cyhoeddus yng Nghymru; |
| "DRhG" | Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000; |
| "Dyddiadau Cyfleu" | y dyddiadau perthnasol ar gyfer cyfleu Cynnyrch y Gwasanaethau fel a nodir yn Atodlen 1; |
| "Dyddiad Cychwyn" | 6 Ionawr 2020; |
| "Dyddiad Terfynu" | y dyddiad pan ddaw y Cytundeb hwn i ben sut bynnag y bo hynny'n digwydd; |
| "Eiddo Deallusol" | ar y cyd, unrhyw a'r holl hawliau eiddo deallusol yng Nghynnyrch y Gwasanaethau, neu sydd yn ymwneud â Chynnyrch y Gwasanaethau, gan gynnwys dyfeisiadau, patentau, dyluniadau cofrestredig, nodau masnach (boed wedi neu heb eu cofrestru), ceisiadau am unrhyw rai o'r uchod a'r hawl i wneud cais amdanynt yn unrhyw ran o'r byd; |

| | |
|---|---|
| | hawlfreintiau, hawliau sydd yn ymdebygu i hawlfraint neu'n cynnig amddiffyniad cyfatebol i hawlfraint, hawliau moesol, hawliau dyluniad, hawliau bas ddata; enwau gwefannau, enwau masnach, logos, ffurf gan gynnwys edrychiad a naws y cynnwys; medrau cyfrin, cyfrinachau masnach a gwybodaeth gyfrinachol arall; hawliau o natur hawliau atal cystadleuaeth annheg a'r hawl i ddwyn achos am beri coel; trwyddedau, cydsyniadau, caniatâd ac ildiadau mewn perthynas ag unrhyw un o'r uchod; a'r cyfan neu unrhyw hawliau tebyg neu gyfatebol sydd yn codi neu sydd yn bodoli mewn unrhyw wlad yn y byd; |
| "Ffi" | y ffi am y Gwasanaethau sef [*£nodwch y ffi*] neu [fel y nodir yn Atodlen 4]; |
| "GDPR" | Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol UE 2016/679; |
| "Gofynion Platfform" | holl delerau ac amodau perthnasol, canllawiau cymuned a chanllawiau a gofynion eraill y Platfformau, gan gynnwys, er mwyn osgoi amheuaeth, gofynion cliriad hawlfraint; |
| "Gwarantau" | y gosodiadau a gwarantau a bennir yn Atodlen 2; a dehonglir y term 'Gwarant' yn unol â hyn; |
| "Gwasanaethau S4C" | unrhyw sianel, gwasanaeth teledu, gwefan neu "ap" y mae S4C neu unrhyw Gwmni Teulu S4C yn berchen arno yn gyfan gwbl neu'n bennaf, gan gynnwys y gwasanaeth teledu digidol "S4C" y gwasanaeth manylder uwch "Clirlun", y wefan www.s4c.cymru a'r gwasanaeth ar alw ar gael ar yr iPhone a'r iPad; |
| "Gwasanaethau" | y gwasanaethau rheoli prosiect ar gyfer ymgyrch gyfryngau '#Iaith2020' S4C y nodir manylion pellach amdanynt yn Atodlen 1; |
| "Gwasanaeth Newydd S4C" | unrhyw sianel, gwasanaeth teledu, gwefan, "ap" neu unrhyw fodd arall o gyfathrebu a'r cyhoedd boed wedi ei ddyfeisio yn bresennol neu beidio (oni bai am Wasanaethau S4C) a sefydlwyd wedi dyddiad y cytundeb hwn y mae S4C neu unrhyw Gwmni Teulu S4C yn berchen arno yn gyfan gwbl neu'n bennaf; |
| "Gwybodaeth Gyfrinachol S4C" | ar y cyd, unrhyw a'r holl wybodaeth, data a medrau cyfrin o natur gyfrinachol (ym mha bynnag ffurf ac ar ba bynnag gyfrwng) sydd yn berthnasol i Eiddo Deallusol a/neu fusnes S4C a/neu ei Chwmnïau Teulu sydd yn cael eu datgelu neu eu gwneud ar gael at ddibenion neu a gynhyrchir o dan y Cytundeb hwn a boed cyn, ar neu wedi Dyddiad Cychwyn y Cytundeb hwn, ynghyd â bodolaeth neu gynnwys y Cytundeb ac/neu unrhyw wybodaeth sydd wedi ei ddynodi'n gyfrinachol gan S4C yn |

| | |
|---|---|
| | ysgrifenedig neu a ddylid ei ystyried yn gyfrinachol ac/neu unrhyw ddata personol a data sensitif o fewn ystyr y Cyfreithiau Diogelu Data; |
| "Holiadur Iechyd a Diogelwch" | yr holiadur iechyd a diogelwch gofynnir i'r Cwmni ei gwblhau yn unol â pholisi Iechyd a Diogelwch S4C a gyhoeddir ar y safle cynhyrchu ar wefan S4C; |
| "Hysbysiad Cydymffurfio S4C" | Hysbysiad Cydymffurfio S4C a gynhwysir ar wefan Awdurdod S4C; |
| "Llyffetheiriau" | unrhyw a phob lien, gwystl, morgais, ernes, ecwiti a llyffethair sydd yn gwarantu unrhyw ddyletswydd ar ran unrhyw berson, trefniadau blaenoriaethol (gan gynnwys trefniadau cadw teitl) a hawliau, buddiannau a hawliadau eraill o ba bynnag natur; |
| "Ofcom" | y Swyddfa Gyfathrebiadau neu unrhyw olynydd; |
| "Person Dynodedig" | [ ]; |
| "Personél Allweddol" | yr unigolion allweddol a gyflogir gan y Cwmni a restrir yn Atodlen 3; |
| "Platfformau" | unrhyw blatfform neu gyfrwng y caiff Cynnyrch y Gwasanaethau eu cyhoeddi a/neu eu gwneud ar gael arnyn nhw yn ystod y Tymor gan gynnwys Facebook, Twitter, Instagram, YouTube neu blatfform arall sy'n bodoli ar hyn o bryd neu a sefydlir yn y dyfodol; |
| "Polisïau" | fel y bo'n berthnasol (i) y codau, canllawiau, polisïau a gofynion sy'n berthnasol i unrhyw gynnwys, rhaglen neu unrhyw ddeunydd arall a gomisiynir gan S4C o bryd i'w gilydd, sef y casgliad o ddogfennau sy'n ymddangos ar neu a restrir ar wefan gynhyrchu S4C (yn http://www.s4c.cymru/cy/cynhyrchu/page/1154/canllawiau/) o fewn yr adran "Canllawiau" ar adeg arwyddo'r Cytundeb, gan gynnwys i osgoi amheuaeth Polisi Amddiffyn Plant S4C, Polisi Cyfryngau Cymdeithasol S4C, Polisi Amrywiaeth a Chydraddoldeb S4C; (ii) holl godau, canllawiau, polisïau a gofynion Ofcom fel y'u cyhoeddir, diwygir neu disodlir o bryd i'w gilydd sy'n berthnasol i Gynnyrch y Gwasanaethau; (iii) y Gofynion Platfform; (iv) i'r graddau y bo'n berthnasol i'r Gwasanaethau, Hysbysiad Cydymffurfio S4C; a bydd y term 'y Polisïau' yn cynnwys y cyfryw godau, canllawiau a gofynion ar y cyd oni bai bod y Drwydded yn cyfeirio at unrhyw un neu fwy ohonynt yn benodol mewn unrhyw achos; |
| "Polisïau Yswiriant" | y polisïau a nodir yng nghymal 11; |
| "Rheoliadau" | Rheoliadau Gwybodaeth am yr Amgylchedd 2004; |

| | |
|---|---|
| "Staff" | yr holl bersonau a gytundebir gan y Cwmni neu a gyfrannir at y Gwasanaethau, ar sail gyflogedig neu hunangyflogedig, gan gynnwys y Personél Allweddol; |
| "TAW" | treth ar werth; |
| "Trefn Gyfathrebu" | y drefn gyfathrebu a nodir yn Atodlen 5 a gaiff ei ddiweddaru o bryd i'w gilydd yn ystod y Tymor; |
| "Trwydded Brand" | trwydded yn y ffurf a nodir yn Atodlen 8; |
| "Twyll" | unrhyw drosedd o dan gyfraith sy'n creu troseddau mewn perthynas a gweithredoedd twyllodrus neu o dan gyfraith gwlad mewn perthynas â gweithredoedd twyllodrus yn ymwneud â'r Cytundeb neu dwyllo, ceisio twyllo neu gynllwynio i dwyllo, S4C; |
| "Tymor" | y cyfnod o 12 mis o'r Dyddiad Cychwyn pan fydd y Cytundeb hwn mewn grym ac yn weithredol yn amodol ar gymal 11; |
| "Ymarfer Da y Diwydiant" | y cyfryw radd o fedr, gofal, diwydrwydd a phwyll o'r safon uchaf a ddisgwylir yn rhesymol ac fel arfer gan unigolion cymwys a phrofiadol sydd yn weithgar yn yr un fath o fusnes â'r Cwmni, dan yr un amgylchiadau neu dan amodau tebyg; yn defnyddio dulliau, safonau, ymarferion a threfnweithiau sydd yn cwrdd â'r Cyfreithiau Perthnasol a chan ddefnyddio personél sydd â'r sgiliau a'r cymwysterau priodol. |

1.2 bydd geiriau ac ymadroddion (gan gynnwys geiriau ac ymadroddion a ddiffinnir yng nghymal 1.1) sydd yn dynodi'r unigol yn cynnwys y lluosog ac mae'r gwrthwyneb yn wir hefyd; bydd cyfeiriadau at "barti" neu'r "partïon" yn golygu S4C a/neu'r Cwmni fel bo'r cyd-destun yn mynnu; bydd cyfeiriadau at y naill ryw yn cynnwys pob rhyw; dehonglir cyfeiriadau at berson i gynnwys unrhyw unigolyn, cwmni, corfforaeth, llywodraeth, cenedl neu asiantaeth lywodraethol neu unrhyw fenter ar y cyd, ymddiriedolaeth, cymdeithas neu bartneriaeth (boed gyda phersonoliaeth cyfreithiol ar wahân ai peidio) ac unrhyw gyfuniad o unrhyw un neu fwy o'r uchod;

1.3 defnyddir y penawdau yn y Cytundeb hwn er cyfleustra yn unig ac ni fwriedir iddynt effeithio ar y modd y dehonglir neu y deallir y Cytundeb hwn; bydd cyfeiriadau at Atodlenni a chymalau yn ymwneud ag atodlenni a chymalau'r Cytundeb hwn, a bydd cyfeiriadau at is-gymalau yn ymwneud ag is-gymalau'r cymal y mae'r cyfeiriad yn ymddangos ynddo;

1.4 dehonglir unrhyw gyfeiriad at statud neu ddarpariaeth statudol, i gynnwys unrhyw ddeddfwriaeth eilaidd a wnaed yn ei sgil, a dehonglir unrhyw gyfeiriad at y statud hwnnw neu'r ddarpariaeth statudol honno neu'r ddeddfwriaeth eilaidd honno fel y gall fod wedi ei hamrywio, ei newid neu ei hail-weithredu neu fel y gall gael ei hamrywio, ei newid neu ei hail-weithredu o dro i dro (wedi neu heb ei newid);

1.5 bydd y geiriau "gan gynnwys" yn golygu "gan gynnwys ond heb gyfyngiad";

1.6 ni fydd y rheol a elwir y rheol 'ejusem generis' yn weithredol ac o ganlyniad ni fydd geiriau cyffredinol sydd yn cael eu dilyn gan y term 'arall/eraill' yn cael eu dehongli yn gaeth o ganlyniad i'r ffaith eu bod yn cael eu rhagflaenu gan eiriau sydd yn dynodi dosbarth penodol o weithredoedd, materion neu bethau; ac

1.7 os bydd unrhyw wrthdaro rhwng y Cytundeb hwn a'r Polisïau, rhoddir blaenoriaeth i amodau'r Cytundeb hwn.

1.8 Bydd amser o'r hanfod parthed oblygiadau'r Cwmni o dan y cytundeb hwn.

## 2. Y Gwasanaethau

2.1 Mae S4C trwy hyn yn cytundebu'r Cwmni ac mae'r Cwmni yn cytuno i ddarparu'r Gwasanaethau o'r Dyddiad Cychwyn trwy gydol y Tymor yn unol ag amodau a thelerau'r Cytundeb hwn oni ac hyd nes bydd y Cytundeb hwn yn cael ei derfynu gan un o'r ddau barti yn unol â'i amodau neu, fel arall, yn dod i ben.

2.2 Wrth gyflawni ei ddyletswyddau dan y Cytundeb hwn, bydd y Cwmni yn ac yn peri y bydd y Staff ar bob adeg yn ystod y Tymor yn cydymffurfio â'r holl Gyfreithiau Perthnasol, yr holl Bolisïau a'r holl gyfarwyddiadau a chyfarwyddyd rhesymol perthnasol a rhoddir gan S4C o bryd i'w gilydd.

2.3 Bydd y Cwmni yn sicrhau bod y Staff yn darparu'r Gwasanaethau mewn ffordd broffesiynol, cwrtais, amserol, cydwybodol ac effeithiol, ac yn unol â'r safonau a fydd yn ofynnol gan S4C.

2.4 Bydd y Cwmni yn sicrhau bod yr holl Staff perthnasol bob amser yn meddu ar wybodaeth eglur, cywir a chyfoes am Wasanaethau S4C ac unrhyw Wasanaeth Newydd S4C a'u hallbwn perthnasol, Polisïau a Chyfreithiau Perthnasol.

2.5 Ni fydd y Cwmni yn, a bydd yn sicrhau na fydd y Staff yn, cynrychioli cyfrifoldeb corfforaethol S4C ar unrhyw fater. Bydd y Cwmni yn sicrhau na fydd y Gwasanaethau yn cael eu hystyried gan y cyhoedd fel ffordd S4C o gyfleu ei pholisi neu ei chynllun busnes, ond ei fod yn wasanaeth sydd yn ategu'r Polisïau.

2.6 Ni fydd y Cwmni, a bydd yn sicrhau na fydd y Staff, yn cyfathrebu gyda'r wasg neu'n gwneud unrhyw ddatganiadau ynghylch materion ariannol neu gyfansoddiadol sydd yn ymwneud ag S4C neu ei Chwmnïau Teulu neu Wasanaethau S4C mewn unrhyw ffordd.

2.7 Ni fydd y Cwmni yn ymrwymo i unrhyw ddyletswydd, boed yn echblyg neu'n ymhlyg, ag unrhyw berson sydd yn neu a all wrthdaro â chyflawniad llawn a chywir ei ddyletswyddau i S4C o dan y Cytundeb hwn.

2.8 Bydd y Cwmni yn hysbysu S4C yn syth yn ysgrifenedig os am unrhyw reswm y bydd yn methu â chyflawni ei ddyletswyddau o dan y Cytundeb hwn. Bydd unrhyw hysbysiad o'r fath heb ymrwymiad i unrhyw hawliau y gall S4C fod â hawl iddynt boed o dan y Cytundeb hwn neu fel arall o dan y gyfraith mewn perthynas ag anallu'r Cwmni i fedru cyflawni ei ddyletswyddau.

2.9 Bydd y Cwmni yn cydymffurfio gydag egwyddorion Polisi Amrywiaeth a Chydraddoldeb S4C (sydd wedi eu cyhoeddi ar safle Bwrdd Unedol S4C ar wefan S4C).

2.10 Bydd y Cwmni yn, a bydd yn sicrhau bod yr holl Staff ar bob adeg yn ystod y Tymor yn, gweithredu er lles gorau S4C ac yn benodol ond heb gyfyngiad, ni fydd yn

gwneud neu'n hepgor gwneud unrhyw beth nac yn ymrwymo i unrhyw gytundebau gydag unrhyw berson a allai wrthdaro â buddiannau gorau S4C, gael effaith andwyol ar enw ac ewyllys da S4C ac/neu oblygiadau'r Cwmni o dan y Cytundeb hwn.

2.11 Yn rheolaidd yn ystod y Tymor, bydd y Cwmni ac S4C yn trafod prosiectau i'w cyflawni a nodau i'w cyflawni gan y Cwmni ynghyd ag amserlenni ar gyfer cyrraedd nodau o'r fath a cherrig milltir allweddol ar gyfer pob prosiect. Bydd unrhyw brosiect a nodau o'r fath yn cael eu cadarnhau rhwng y Cwmni ac S4C yn ysgrifenedig a bydd cyrraedd y fath nodau a chwblhau prosiectau o'r fath yn ffurfio rhan sylfaenol o'r Cytundeb hwn.

## 3. Cynhyrchu'r Deunydd Digidol

3.1 Mae'r Cwmni'n gwarantu, yn ymrwymo ac yn cytuno i wneud y Deunydd Digidol yn union yn unol â'r manylebion a bennir yn Atodlen 1 ac i gyfleu'r Deunydd Digidol i S4C ar neu cyn y Dyddiadau Cyfleu.

3.2 Bydd y Cwmni'n sicrhau bod y Deunydd Digidol yn briodol i'w gyhoeddi ar y Platfformau perthnasol.

3.3 Mae'r Cwmni'n gwarantu, yn ymrwymo ac yn cytuno i gynhyrchu a chyfleu'r Deunydd Digidol yn unol â'r Polisïau ac unrhyw amrywiad neu ddiweddariad i'r dogfennau hynny o dro i dro sydd ar gael ar wefan gynhyrchu S4C. Bydd y Cwmni'n sicrhau cymeradwyaeth S4C ar gyfer unrhyw gydnabyddiaeth neu fudd arall o unrhyw fath y bydd unrhyw noddwr rhaglen neu drefnydd digwyddiad yn gofyn amdano, ymlaen llaw. Yn arbennig, ni chaniateir gosod cynnyrch heb ganiatâd ysgrifenedig o flaen llaw gan S4C (fel y'i diffinnir yng Nghanllawiau S4C ar Osod Cynnyrch).

3.4 Mae'r Cwmni'n gwarantu ac yn ymrwymo i S4C y bydd y Cwmni ac unrhyw Staff yn cydymffurfio bob amser â'r telerau perthnasol ac unrhyw gyfyngiadau a osodir ar S4C a/neu'r Cwmni yn y Gofynion Platfform, ac na fydd yn gwneud nac yn methu â gwneud unrhyw beth a fydd yn golygu bod S4C yn torri unrhyw un neu bob un o delerau'r Gofynion Platfform neu fel arall yn gwneud neu'n methu â gwneud unrhyw beth sydd ynddo'i hun yn torri unrhyw un neu bob un o delerau'r Gofynion Platfform sy'n ymwneud â'r Cwmni fel cynhyrchydd y Deunydd Digidol.

3.5 Oni nodir fel arall yn Atodlen 1, ni fydd y Deunydd Digidol yn cynnwys unrhyw gydnabyddiaethau, rhybuddion hawlfraint na bwrdd cloi. Os yw'r Deunydd Digidol yn cynnwys cydnabyddiaethau, rhybuddion hawlfraint neu fwrdd cloi annerbyniol, caiff S4C wrthod y Deunydd Digidol neu hepgor a/neu newid y cydnabyddiaethau heb gysylltu â'r Cwmni.

## 4. Cymeradwyaeth a Rheolaeth Olygyddol

4.1 Bydd gan S4C reolaeth olygyddol llawn a chymeradwyaeth dros bob elfen o'r Gwasanaethau trwy gydol y Tymor. Caiff Cynnyrch y Gwasanaethau ei gynhyrchu gan y Cwmni yn unol â'r holl ofynion creadigol a thechnegol a hysbyswyd gan S4C i'r Cwmni o dro i dro.

4.2 Mae pob elfen o'r Gwasanaethau sydd angen cymeradwyaeth o flaen llaw gan S4C wedi eu nodi yn Rhan 2 o Atodlen 1. Bydd y Cwmni'n darparu copiau o'r holl

ddeunydd i'w gymeradwyo gan S4C mewn da bryd er mwyn caniatau digon o amser i S4C adolygu'r fath ddeunydd ac i alluogi'r Cwmni i wneud unrhyw newidiadau gofynnol neu o fewn unrhyw derfyn amser arall a hysbyswyd i'r Cwmni gan S4C o dro i dro.

4.3 Bydd y Cwmni, ar ei gost a'u draul ei hun, yn gwneud unrhyw newidiadau sy'n ofynnol gan S4C i unrhyw ddeunydd sy'n ffurfio rhan o Gynnyrch y Gwasanaethau er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Polisïau.

4.4 Bydd gan S4C yr hawl i ofyn i'r Cwmni i wneud newidiadau ac/neu i wneud newidiadau ei hun i unrhyw Gynnyrch y Gwasanaethau am resymau golygyddol pur. Lle bo S4C yn gofyn i'r Cwmni wneud y fath newidiadau bydd y Cwmni'n gwneud hynny yn brydlon a, beth bynnag o fewn unrhyw derfyniadau amser a nodir gan S4C.

4.5 Ni chaiff unrhyw reolaeth neu gymeradwyaeth olygyddol a ymarferir gan S4C yn unol â'r cymal 4 hwn ei ddehongli mewn unrhyw ffordd sy'n cyfyngu neu leihau ar gyfrifoldebau'r Cwmni i ddarparu'r Gwasanaethau mewn modd sy'n cydymffurfio'n llawn â gofynion y Cytundeb hwn.

4.6 Ni fydd dyletswydd ar S4C i ddefnyddio neu gyhoeddi Cynnyrch y Gwasanaethau.

4.7 Bydd y Cwmni'n trafod unrhyw gynlluniau i gynnal cystadleuaeth(au) mewn cysylltiad â'r Gwasanaethau o flaen llaw gyda Chynrychiolydd S4C. Bydd y Cwmni'n sicrhau bod unrhyw gystadleuaeth yn cydymffurfio â phob cyfraith, rheoliadau a chanllawiau perthnasol

**5. Safonau Iaith Gymraeg**

5.1 I'r graddau y bo'r rhain yn berthnasol i ddarpariaeth y Gwasanaethau, bydd y Cwmni'n cydymffurfio gyda Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a'r safonau y mae'n rhaid i S4C gydymffurfio â hwy yn unol â'r Hysbysiad Cydymffurfio, fel petai y Cwmni oedd S4C.

5.2 Bydd y Cwmni'n darparu'r Gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog (yn Gymraeg a Saesneg).

5.3 Lle bo'r Cwmni'n cysylltu ag aelodau o'r cyhoedd mewn cysylltiad â'r Gwasanaethau, bydd y Cwmni'n gwneud hynny'n ddwyieithog neu'n Gymraeg yn unig fel sy'n briodol.

5.4 Bydd y Cwmni'n darparu adroddiad ysgrifenedig i S4C bob Chwarter yn cynnwys gwybodaeth am unrhyw gwynion neu anawsterau gan y cyhoedd yn ymwneud â gofynion yn gysylltiedig â'r iaith Gymraeg, ac unrhyw wybodaeth arall a ofynnir gan S4C.

**6. Iechyd a Diogelwch**

6.1 Wrth gynhyrchu holl Gynnyrch y Gwasanaethau y gallai gael effaith ar iechyd a diogelwch unigolion, mae'r Cwmni'n gwarantu y bydd yn cydymffurfio ac y bydd yn sicrhau y bydd yr holl Staff yn cydymffurfio â'r holl reolau, rheoliadau a deddfwriaeth iechyd a diogelwch perthnasol a fydd mewn grym o bryd i'w gilydd.

6.2 Mae'r Cwmni'n gwarantu ei fod wedi darparu gwybodaeth i S4C mewn perthynas â'i safonau, gweithdrefnau a pholisïau iechyd a diogelwch (gan gynnwys yr Holiadur Iechyd a Diogelwch) a bod y gyfryw wybodaeth yn gywir ac yn gyflawn er boddhad S4C. Os bydd unrhyw newid i'r gyfryw wybodaeth neu sefyllfa'r Cwmni mewn perthynas ag iechyd a diogelwch, mae'r Cwmni'n cytuno i hysbysu S4C ar unwaith yn ysgrifenedig.

6.3 Mae'r Cwmni'n gyfrifol am ddiogelwch pawb sy'n ymwneud â chyfleu'r Gwasanaethau. Mae'r ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch yn gosod y cyfrifoldeb hwn ar y Cwmni. Nid yw polisi S4C yn disodli'r cyfrifoldebau statudol hyn.

## 7. Diogelu Plant

7.1 Lle bo trefniadau mewn perthynas â'r Gwasanaethau yn cynnwys plant neu oedolion bregus boed fel cyfranwyr, aelodau o'r gynulleidfa neu fel arall, bydd y Cwmni yn cydymffurfio â Pholisi Amddiffyn Plant S4C sydd mewn grym ar y dyddiad cynhyrchu, sydd ar gael ar wefan gynhyrchu S4C, a'r holl ddeddfwriaeth a rheoliadau perthnasol o bryd i'w gilydd sy'n ofynnol er mwyn sicrhau lles plant a phobl fregus.

7.2 Mae rheolau llym yn bodoli mewn perthynas â pharatoi adroddiadau am achosion llys sy'n cynnwys plant. Ym mhob achos, dylai'r Cwmni gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau neu orchmynion a roddir gan lys sy'n gwahardd rhyddhau unrhyw fanylion am unrhyw blentyn sy'n cymryd rhan mewn unrhyw achos llys mewn unrhyw ffordd, boed hynny dan y Deddfau Plant a Phobl Ifanc, neu fel arall.

7.3 Mae'r Cwmni'n gwarantu y bydd y Person Dynodedig ar gael ar bob adeg yn ystod y Tymor er mwyn a bydd yn benodol yn asesu a chynghori ar y risgiau i les plant neu oedolion bregus sy'n ymwneud â chreu a chyfleu Cynnyrch y Gwasanaethau, a bydd y Person Dynodedig wedi derbyn hyfforddiant mewn amddiffyn plant gan y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC) i'r fath lefel ag a gymeradwyir gan S4C.

7.4 Bydd y Cwmni yn sicrhau bod defnydd o'r Platfformau mewn cysylltiad â Chynnyrch y Gwasanaethau yn gyfrifol, yn briodol ac yn berthnasol, a bydd hefyd yn sicrhau bod unrhyw wiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd y mae'n briodol eu cynnal o ganlyniad i'r gweithgareddau rhyngweithiol cyfryngau cymdeithasol yn cael eu cwblhau.

## 8. Trefn Gyfathrebu a Chyfarfodydd Adolygu

8.1 Bydd y Cwmni yn cyfarfod â S4C ar adegau ac ar ddyddiadau y gwneir cais rhesymol gan S4C amdanynt o bryd i'w gilydd yn ystod y Tymor i drafod unrhyw fater sydd yn codi o ddarparu'r Gwasanaethau a sydd angen delio ag ef ar fyr rybudd. Bydd y Cwmni yn gwneud pob ymdrech resymol i sicrhau mynychiad i'r cyfarfod gan bob aelod o'r Staff y gall S4C ofyn yn rhesymol iddynt fynychu'r cyfarfod.

8.2 Bydd S4C a'r Cwmni yn cyfarfod yn [chwarterol] i adolygu'n ffurfiol y materion sydd yn codi o ddarparu'r Gwasanaeth. Bydd y Cwmni yn gwneud pob ymdrech resymol i sicrhau bod Personél Allweddol a Staff y gall S4C ofyn yn rhesymol iddynt fynychu, yn mynychu pob cyfarfod adolygu. O leiaf ddeg (10) Diwrnod Gwaith cyn unrhyw

gyfarfod o'r fath bydd y Cwmni yn darparu adroddiad ysgrifenedig yn cynnwys holl wybodaeth arall y gall S4C ofyn yn rhesymo amdani ynghylch y Chwarter blaenorol.

8.3 Yn y cyfarfodydd adolygu bydd S4C a'r Cwmni yn adolygu ac yn trafod materion sydd yn codi o ddarparu'r Gwasanaethau gan gynnwys, ond heb ei gyfyngu i'r canlynol:

8.3.1 natur a/neu safon y Gwasanaethau a ddarparwyd;

8.3.2 pob elfen o gynhyrchu a chyfleu Cynnyrch y Gwasanaethau gan gynnwys cynnwys a natur y Deunydd Digidol a'r Dyddiadau Cyfleu;

8.3.3 unrhyw newidiadau i'w gwneud i'r Gwasanaethau a/neu'r Drefn Gyfathrebu er mwyn gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y Gwasanaethau (gan gynnwys gwelliannau i'r Systemau Gweithredu, y lefelau staffio, hyfforddi Staff);

8.3.4 arddull, amlder, cynnwys, amserlen cyfleu ac unrhyw fater arall sydd yn ymwneud â'r adroddiadau;

8.3.5 [y manylion, datblygiad ac unrhyw adolygiad o'r nodau cyfredol gan gynnwys unrhyw newidiadau angenrheidiol i'r amserlenni;]

8.3.6 [***manylion materion ychwanegol i'w trafod yn ystod cyfarfodydd adolygu i'w cytuno rhwng S4C a'r cynigydd llwyddiannus yn seiliedig ar y tendr llwyddiannus.***]

8.4 Yn dilyn y fath gyfarfodydd adolygu, gall S4C roi rhybudd ysgrifenedig i'r Cwmni i:

8.4.1 gadarnhau apwyntiad y Cwmni am weddill y Tymor yn unol â thelerau ac amodau'r Cytundeb hwn;

8.4.2 gadarnhau apwyntiad y Cwmni am weddill y Tymor ar y fath delerau diwygiedig, ychwanegol neu wahanol a gytunir rhwng y partïon ac a gadarnheir yn ysgrifenedig; neu

8.4.3 derfynu'r Cytundeb hwn drwy roi tri mis o rybudd.

## 9. Staffio

9.1 Mae'r Cwmni yn cytuno i gyflogi neu gytundebu gwasanaeth nifer digonol o Staff sydd yn meddu ar y profiad a'r sgiliau priodol a sydd yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg lle yn briodol i sicrhau bod y Gwasanaethau yn cael eu darparu yn unol ag Ymarfer Da y Diwydiant a gofynion y Cytundeb hwn.

9.2 Bydd y Cwmni yn darparu'r holl hyfforddiant angenrheidiol i'r Staff yn unol ag Ymarfer Da y Diwydiant ac yn darparu hyfforddiant i Staff fel y bo'n briodol, yn berthnasol i Wasanaethau S4C ac unrhyw Wasanaeth Newydd S4C **[nodi manylion]** cofnodi ac adrodd ar y gwybodaeth a nodir yng nghymal 3, y Drefn Gyfathrebu, goblygiadau cyfreithiol materion sydd yn codi wrth ddarparu'r Gwasanaethau ac unrhyw ofynion hyfforddi eraill y gall S4C ofyn amdanynt yn rhesymol.

## 10. Personél Allweddol

10.1 Bydd y Cwmni yn gwneud pob ymdrech resymol i sicrhau bod y Personél Allweddol yn parhau yn gyflogedig ganddo ac ar gael i gyfrannu at ddarparu'r Gwasanaethau trwy gydol y Tymor.

10.2 Bydd y Cwmni yn hysbysu S4C yn ysgrifenedig o unrhyw faterion neu amgylchiadau a allai effeithio ar argaeledd y Personél Allweddol yn syth wedi iddo ddod yn ymwybodol ohonynt.

10.3 Os na fydd unrhyw un neu rai o'r Personél Allweddol ar gael ar unrhyw adeg yn ystod y Tymor, bydd y Cwmni yn crybwyll eilydd addas i S4C yn ysgrifenedig. Ni chaniateir i unrhyw eilydd ar gyfer unrhyw un o'r Personél Allweddol ddarparu'r Gwasanaethau oni bai bod S4C wedi rhoi ei chymeradwyaeth ysgrifenedig i'r fath eilydd ymlaen llaw. Os na ellir cael gafael ar eilydd sydd yn dderbyniol i S4C, bydd gan S4C yr hawl trwy roi rhybudd ysgrifenedig i'r Cwmni i derfynu'r Cytundeb hwn yn syth.

10.4 Ar dderbyn rhybudd ysgrifenedig gan S4C, bydd y Cwmni yn cael gwared ar unrhyw aelod o Staff a bennir gan S4C neu'n peri bod unrhyw aelod o Staff a bennir gan S4C yn cael ei symud fel na fydd yn darparu unrhyw ran o'r, neu ymwneud â'r, Gwasanaethau lle bo S4C o'r farn bod ymddygiad neu ymarweddiad y fath aelod o'r Staff yn amharu ar fuddiannau, enw da neu ewyllys da S4C, neu'n amhriodol o ystyried natur y Gwasanaethau. Bydd penderfyniad S4C o ran a ddylid symud neu gael gwared ar unrhyw aelod o Staff yn derfynol ac yn bendant. Ni fydd S4C yn atebol o dan unrhyw amgylchiadau i'r Cwmni neu i unrhyw aelod o Staff o'r fath mewn perthynas â chael gwared ohonynt a bydd y Cwmni yn indemnio S4C rhag ac yn erbyn unrhyw a phob hawliad, hawlgais, achos ac/neu ymgyfreitha a wneir neu a ddygir neu a fygythir yn erbyn S4C gan unrhyw aelod o Staff o'r fath (gan gynnwys costau cyfreithiol a threuliau ar sail y costau rhwng cyfreithiwr a'i gleient ei hun) a ddioddefir mewn cysylltiad â hyn. Ni fydd cael gwared ar unrhyw aelod o Staff dan y cymal 6.4 hwn yn rhyddhau'r Cwmni o'i ddyletswyddau o dan y Cytundeb hwn.

## 11. Eiddo Deallusol

11.1 Bydd gan y Cwmni hawl i ddefnyddio brand S4C yng nghyd-destun y Gwasanaethau yn unol â Chanllawiau Brand S4C ac yn cytuno i'r Trwydded Brand sy'n rheoli'r defnydd o frand a logos S4C.

11.2 Bydd yr Eiddo Deallusol yn berchen i ac yn eiddo llwyr S4C. Bydd S4C yn rhydd i ddefnyddio ac i ymelwa (ac i awdurdodi trydydd-bartïon i ddefnyddio ac i ymelwa) ar yr Eiddo Deallusol ym mha bynnag ffurf, ym mha bynnag fodd ac mewn unrhyw gyfrwng bynnag (boed yn hysbys ar y Dyddiad Cychwyn neu a ddyfeisir wedi hynny) ac mae'r Cwmni trwy hyn yn aseinio i S4C yn llwyr, yn ddi-droi'n-ôl ac yn ddiamod gyda theitl llawn wedi ei warantu ac yn rhydd o bob Llyffethair yr holl hawliau, budd a theitl ledled y byd yn ac i unrhyw a phob hawlfraint, hawl sydd o natur hawlfraint, hawl bas data a hawl dyluniad heb ei chofrestru yn y DU boed yn hysbys ar hyn o bryd neu sy'n dod i rym yn y dyfodol a gynhwysir yn yr Eiddo Deallusol gyda'r bwriad a gyda'r effaith y bydd yr holl hawliau o'r fath yn cael eu breinio yn S4C yn awtomatig ac yn syth ar y dyddiad y caffaelir, y creuir, y datblygir, y dylunnir neu fel arall y paratoir y fath hawliau ymhob achos am gyfnod llawn y cyfryw gan gynnwys pob adnewyddiad ohonynt ac estyniad iddynt ynghyd â phob hawl, budd neu bŵer sydd yn tarddu neu sydd yn deillio ohonynt gan gynnwys yr hawl i ddwyn achos am iawndal a rhwymedïau eraill mewn perthynas ag unrhyw darfu arnynt yn y gorffennol neu'n gyfredol.

11.3 Mae'r Cwmni yn rhoi ac yn cadarnhau'n ddi-alw'n-ôl ac yn ddiamod i S4C, ei holynwyr, ei haseineion a'i thrwyddedeion;

11.3.1 bod yr holl Staff wedi aseinio a/neu roi i'r Cwmni yr holl hawliau a chaniatâd yn sgil y Ddeddf a'r holl gyfreithiau eraill sydd mewn grym nawr neu yn y dyfodol mewn unrhyw ran o'r byd, y gall fod eu hangen er mwyn medru ymelwa ar yr Eiddo Deallusol ym mha bynnag ffurf ac ym mha bynnag fodd neu gyfrwng (boed yn hysbys ar hyn o bryd neu a ddyfeisir wedi hyn); a

11.3.2 bod yr holl Staff wedi ildio yn ddi-alw'n-ôl a diamod eu holl hawliau mewn perthynas â Chynnyrch y Gwasanaethau y mae'r cyfryw Staff ar hyn o bryd neu y gallant fod â'r hawl iddynt yn y dyfodol yn sgil darpariaethau Adrannau 77, 80, 84 ac 85 y Ddeddf ac unrhyw hawliau moesol eraill y gall y cyfryw Staff fod â hawl iddynt dan unrhyw ddeddfwriaeth sydd mewn grym nawr neu yn y dyfodol mewn unrhyw ran o'r byd.

11.4 Bydd y Cwmni ar gais ac ar gost S4C yn cyflawni'r holl weithredoedd ac yn cyflawni'r holl ddogfennau ag y gall S4C eu mynnu o bryd i'w gilydd er mwyn diogelu neu freinio'n briodol yn S4C yr holl hawliau, teitl a buddiannau ag a aseinir ac a drwyddedir i S4C neu sydd i'w haseinio neu i'w trwyddedu i S4C yn sgil cymal 7 a/neu i ddiogelu neu i sicrhau patent, dyluniad cofrestredig, nod masnach cofrestredig a/neu ffurf arall o ddiogelu'r Eiddo Deallusol. Mae'r Cwmni trwy hyn yn rhoi pŵer atwrnai di-alw'n-ôl (a roddir i sicrhau budd perchnogol S4C ac mae'n ddi-alw'n-ôl yn unol ag Adran 4 Deddf Pwerau Atwrnai 1971) i S4C gyda'r hawl ond nid y ddyletswydd i gyflawni unrhyw a phob gweithred a pheth sydd yn angenrheidiol er mwyn rhoi effaith lawn neu bellach i ddarpariaethau'r Cytundeb hwn ac i weithredu unrhyw gyfryw weithredoedd, dogfennau ac offerynnau yn enw ac ar ran y Cwmni os na fydd y Cwmni yn llwyddo i wneud hynny cyn pen cyfnod o bedwar diwrnod ar ddeg (14) ar ôl cael cais perthnasol gan S4C.

11.5 Mae'r Cwmni drwy hyn yn gwarantu a chynrychioli i S4C y bydd yr holl gynnwys a chyfraniadau sy'n ffurfio rhan o Gynnyrch y Gwasanaethau wedi'u "prynu" yn llawn ledled y byd ym mhob cyfrwng sy'n hysbys yn awr neu a ddyfeisir ar ôl hyn ac na fydd unrhyw ddefnydd pellach o daliadau, ailddarllediadau neu freindaliadau yn daladwy gan S4C i unrhyw drydydd parti mewn perthynas â Chynnyrch y Gwasanaethau a bydd yn sicrhau bob amser fod pob agwedd ar Gynnyrch y Gwasanaethau wedi'i chlirio at ddefnydd byd-eang ar y rhyngrwyd.

## 12. Gwarantau

12.1 Mae'r Cwmni yn addo, yn gwarantu ac yn ymrwymo gydag S4C ar y telerau a bennir yn Atodlen 2.

12.2 Mae'r Cwmni yn derbyn bod S4C yn arwyddo'r Cytundeb hwn gan ddibynnu ar bob un o'r Gwarantau.

12.3 Dehonglir pob un o'r Gwarantau fel gwarant annibynnol ac ar wahân ac ni chyfyngir neu amharir ar eu hystyr neu eu heffaith trwy gyfeirio at neu drwy ddehongli telerau unrhyw Warant arall neu unrhyw ddarpariaeth arall yn y Cytundeb hwn.

## 13. Materion Ariannol

13.1 Mewn ystyriaeth am y Gwasanaethau a'r perfformiad gan y Cwmni o'i oblygiadau o dan y Cytundeb hwn ac yn dilyn derbyn gan y Cwmni dderbynneb dilys y bydd S4C yn talu'r Ffi i'r Cwmni.

13.2 Nid yw'r Ffi yn cynnwys TAW ac fe delir TAW gan S4C uwchlaw'r Ffi yn amodol ar dderbyn anfonebau TAW priodol.

13.3 Mae'r Ffi yn cynnwys yr holl gostau a threuliau a ddioddefir gan y Cwmni wrth ddarparu'r Gwasanaethau ac ni fydd S4C yn atebol am dalu unrhyw gostau sydd yn ychwanegol i'r Ffi.

13.4 [***Cymalau sydd yn delio gyda thalu'r Ffi i'w cynnwys ar ôl cytundeb rhwng S4C a'r cynigydd llwyddiannus gan ystyried y strwythur prisio ac anfonebu a nodir yn y tendr llwyddiannus***]

## 14. Indemniad

Bydd y Cwmni yn indemnio ac yn digolledu ac yn cadw S4C wedi ei hindemnio ac yn ddigolled rhag ac yn erbyn unrhyw a phob achos, hawliad, hawlgais, ymgyfreitha, dirwy, cost, traul (gan gynnwys treuliau cyfreithiol ar sail y costau rhwng cyfreithiwr a'i gleient ei hun), taliad, colled, iawndal ac atebolrwydd arall o ba bynnag natur a sut bynnag y bo'n tarddu a dioddefir, a delir neu a dderbynnir gan S4C o ganlyniad i neu mewn cysylltiad ag unrhyw gyflawni neu ddiffyg gyflawni gan y Cwmni o unrhyw rai o'i ddyletswyddau o dan y Cytundeb hwn neu unrhyw dorri ar unrhyw un neu fwy o'r Gwarantau gan y Cwmni neu unrhyw esgeulustod neu weithred neu ddiffyg gweithredu bwriadol ar ran y Cwmni neu ar ran unrhyw aelod o Staff neu unrhyw hawliad gan unrhyw berson bod unrhyw ddefnydd neu ymelwa gan S4C neu unrhyw un o'i holynwyr, aseineion neu ei thrwyddedeion o'r Eiddo Deallusol, yn tarfu ar hawliau unrhyw berson.

## 15. Yswiriant

15.1 Cyn cychwyn darparu'r Gwasanaethau, mae'r Cwmni'n ymrwymo i gychwyn a chynnal polisïau yswiriant addas gyda chwmnïau neu dan-sgrifennwyr yswiriant cyfrifol rhag yr holl beryglon yr yswirir yn eu herbyn fel rheol yn unol ag arferion ac ymarfer da y diwydiant ac amgylchiadau penodol y Gwasanaethau trwy gydol y Tymor ac am gyfnod o 6 blwyddyn yn dilyn terfynu cytundeb neu ar ddiwedd cyfnod y cytundeb. Heb amharu ar natur gyffredinol yr uchod, bydd y cyfryw yswiriant yn cynnwys yswiriant indemniad proffesiynol digonol gyda chwmni yswiriant cyfrifol gyda throthwy isafswm indemniad o £5,000,000 fesul hawliad ac yswiriant atebolrwydd cyhoeddus digonol gyda chwmni yswiriant cyfrifol gyda throthwy isafswm indemniad o £10,000,000 fesul hawliad a chyfanswm cronnol (*aggregate)* anghyfyngedig y flwyddyn.

15.2 Mae'r Cwmni'n ymrwymo i gydymffurfio â thelerau, amodau a chyfyngiadau'r Polisïau Yswiriant trwy gydol y Tymor, gan gynnwys sicrhau taliadau amserol o bob premiwm. Ni fydd y Cwmni yn gwneud dim nac yn caniatáu i ddim gael ei wneud fydd yn peri y gall unrhyw un o'r Polisïau Yswiriant gael ei ddiddymu, neu fod yn ddi-rym neu fod yn ddirymadwy, boed hynny'n rhannol neu'n gyfan gwbl.

15.3 Bydd y Cwmni yn darparu gwybodaeth lawn a'r holl ddogfennau sy'n berthnasol i'r holl Bolisïau Yswiriant a'r holl amrywiadau, ychwanegiadau ac estyniadau i'r holl Bolisïau Yswiriant i S4C yn ddi-oed wedi derbyn cais gan S4C.

15.4 Bydd y Cwmni yn cynghori S4C yn syth yn ysgrifenedig o unrhyw ddigwyddiad a all arwain at unrhyw hawliad o dan unrhyw un o'r Polisïau Yswiriant a all rwystro'r Cwmni rhag cydymffurfio â'i ddyletswyddau cytundebol o dan y Cytundeb hwn. Bydd y Cynhyrchydd yn darparu i S4C gopïau o'r holl ohebiaeth a dogfennau sy'n berthnasol i unrhyw fater o'r fath yn syth wedi eu derbyn.

## 16. Terfynu

16.1 Gall S4C ar unrhyw adeg, trwy roi rhybudd ysgrifenedig i'r Cwmni, derfynu'r Cytundeb hwn gydag effaith disyfyd os:

16.1.1 yw'r Cwmni yn torri'n sylweddol unrhyw rai o'i ddyletswyddau dan y Cytundeb hwn sydd (a) yn methu â chael ei gywiro; neu (b) os oes modd ei gywiro, heb ei gywiro cyn pen saith (7) niwrnod i S4C dynnu sylw'r Cwmni at y fath dor-amod (neu'r fath gyfnod hirach ag y gall S4C gytuno iddo); neu

16.1.2 os bydd unrhyw rai o'r canlynol yn digwydd:

(a) os cyflwynir deiseb neu os gelwir cyfarfod at ddibenion ystyried cynnig i ddirwyn i ben neu i ddiddymu'r Cwmni, neu os derbynnir cynnig i ddirwyn y Cwmni i ben neu i'w ddiddymu, neu os gwneir gorchymyn i ddirwyn y Cwmni i ben neu orchymyn i ddiddymu'r Cwmni;

(b) os penodir derbynnydd, derbynnydd gweinyddol, derbynnydd a rheolwr, gweinyddwr, secwestrydd neu swyddog tebyg dros holl neu unrhyw asedau neu fusnes y Cwmni, os gwneir cais i benodi gweinyddwr, neu os gwneir gorchymyn i benodi gweinyddwr neu os cyflwynir deiseb i benodi gweinyddwr, mewn perthynas â'r Cwmni;

(c) os ceir cynnig i wneud, cais am neu ymrwymiad i gyfaddawd neu ddealltwriaeth neu drefniant gwirfoddol, neu unrhyw gynllun, cyfamod neu drefniant arall i fodloni neu gyfrandalu unrhyw rai o ddyledion y Cwmni neu drefniant arall er budd credydwyr y Cwmni yn gyffredinol, gan y Cwmni gydag unrhyw rai o'i gredydwyr (neu unrhyw ddosbarth ohonynt) neu unrhyw rai o'i gyfranddalwyr (neu unrhyw ddosbarth ohonynt) neu unrhyw weithredu gan y Cwmni mewn unrhyw fodd i'r perwyl hwn neu gofnodi unrhyw ddogfennau gyda'r llys at ddiben sicrhau moratoriwm yn sgil adran 1A a pharagraff 7 o Atodlen A1 Ddeddf Ansolfedd 1986 mewn perthynas â'r Cwmni;

(d) os bydd unrhyw gredydwr (boed wedi ei ddiogelu gan arwystl neu fel arall) yn cymryd meddiant o neu'n atafaelu yn erbyn neu'n gweithredu rhyw broses arall dros yr holl neu ran o eiddo, asedau neu fusnes y Cwmni;

(e) os tybir nad yw'r Cwmni yn gallu talu ei ddyledion o fewn ystyr adran 123 Deddf Ansolfedd 1986 (ond bernir bod y geiriau 'wedi eu profi at fodd y llys' wedi eu hepgor o'r fath adran at y dibenion hyn);

(f) os bydd y Cwmni yn gohirio talu ei ddyledion neu'n methu neu'n cyfaddef nad yw'n medru talu ei ddyledion wrth iddynt godin ddyledus;

(g) os bydd y Cwmni yn rhoi'r gorau i gynnal y cyfan neu ran helaeth o'i fusnes;

(h) mewn achos unigolyn neu bartneriaeth, os cyflwynir deiseb i'w wneud yn fethdalwr, neu os gwneir gorchymyn o fethdalwr, mewn perthynas â'r Cwmni, neu os digwydd amgylchiadau mewn perthynas â'r Cwmni a fyddai'n galluogi cyflwyno deiseb methdaliad dan Rhan IX Deddf Ansolfedd 1986 neu os gwneir cais am orchymyn interim neu os gwneir gorchymyn interim dan adran 252 Deddf Ansolfedd 1986 mewn perthynas â'r Cwmni, neu, pan fo'r Cwmni yn bartneriaeth, os digwydd unrhyw rai o'r digwyddiadau uchod ynghylch unrhyw bartner unigol yn y bartneriaeth; neu

(i) os bydd unrhyw ddigwyddiad neu amgylchiad mewn perthynas â'r Cwmni sydd yn debyg i unrhyw un o'r cyfryw amgylchiadau y cyfeirir atynt ym mharagraffau (a) i (h) uchod, yn digwydd o fewn unrhyw awdurdodaeth heblaw am Loegr a Chymru; neu

16.1.3 os oes newid yn rheolaeth (fel y diffinnir 'rheolaeth' yn adran 1124 Deddf Trethi Corfforaethol 2010) y Cwmni.

16.2 Gall S4C derfynu'r Cytundeb hwn trwy roi i'r Cwmni o leiaf un (1) mis o rybudd ysgrifenedig.

16.3 Gall S4C, os y myn, ymestyn y Cytundeb hwn am hyd at 6 (chwe) mis pellach o ddiwedd y Tymor drwy roi rhybudd ysgrifenedig i'r Cwmni o leiaf un (1) mis cyn diwedd y tymor. Os nad yw S4C am ymestyn y Cytundeb wedi diwedd y Tymor, yna bydd y Cytundeb yn dirwyn i ben ar ddiwedd y Tymor, a cymal 17 isod yn berthnasol.

## 17. Canlyniadau Dirwyn i Ben neu Derfynu

17.1 Wedi i'r Cytundeb ddirwyn i ben trwy dreigl amser neu gael ei derfynu sut bynnag y bo hynny'n digwydd ac yn ddarostyngedig ar bob achlysur i ddarpariaethau'r cymal 13 hwn, bydd yr holl hawliau a dyletswyddau dan y Cytundeb hwn yn dod i ben ac yn terfynu yn syth heb amharu ar unrhyw hawliau gweithredu sydd wedi cronni hyd at y pwynt hwnnw o dan y Cytundeb hwn, gan gynnwys unrhyw hawliau y gall y naill barti neu'r llall fod â hawl iddynt mewn perthynas â hawlio iawndal am dor-cytundeb gan y parti arall neu dan unrhyw indemniad.

17.2 Bydd dyletswydd S4C i dalu'r Cwmni wedi ei chyfyngu i'r fath daliadau ag sydd yn ddyledus am y Gwasanaethau sydd wedi cael eu darparu mewn gwirionedd ac yn gywir gan y Cwmni wrth fodd rhesymol S4C yn unol â thelerau'r Cytundeb hwn hyd at y Dyddiad Terfynu.

17.3 Yn syth wedi'r Dyddiad Terfynu bydd y Cwmni yn cyfleu i S4C ar ei gost ei hun:

17.3.1 yr holl eiddo sydd yn berchen i S4C sydd ym meddiant neu ofal y Cwmni neu o dan ei awdurdod neu reolaeth gan gynnwys unrhyw a holl Wybodaeth Gyfrinachol S4C ynghyd â'r holl gopïau ohonynt neu ddarnau ohonynt; a'r

17.3.2 holl ddogfennau eraill sydd yn berthnasol i'r Cytundeb hwn; ac

os bydd S4C yn gofyn iddo wneud hynny6, bydd yn darparu'r holl gymorth ag y gall S4C ofyn amdano'n rhesymol er mwyn galluogi S4C neu unrhyw Gwmni (neu

Gwmnïau) eraill a benodir gan S4C, i gwblhau'r gwaith o ddarparu unrhyw Wasanaethau.

17.4 Mae'r Cwmni yn cydnabod na fydd gan y Cwmni unrhyw hawliad mewn perthynas ag unrhyw golli cyfle i hyrwyddo ei enw neu fel arall o ba bynnag natur os yw S4C yn terfynu'r Cytundeb hwn.

17.5 Os bydd y Cytundeb hwn yn cael ei derfynu gan S4C yn sgil cymal 12.1.1 ac os bydd y gost gyfan gwbl (gan gynnwys TAW) i S4C o gwblhau'r gwaith o ddarparu'r Gwasanaethau (boed y rheiny yn cael eu darparu neu eu cynhyrchu gan S4C yn fewnol neu gan drydydd-parti) am weddill cyfnod y Cytundeb hwn pe na bai'r terfynu wedi digwydd, uwchlaw'r cyfran o'r Ffi a fyddai'n ddyledus i'r Cwmni pe na bai'r Cytundeb hwn wedi cael ei derfynu, bydd y Cwmni yn talu i S4C ar hawliad S4C y fath swm ag sydd yn cyfateb â'r cynnydd.

17.6 Bydd y cymalau canlynol yn goroesi os bydd y Cytundeb hwn yn dirwyn i ben trwy dreigl amser neu'n cael ei derfynu sut bynnag y bo'n digwydd: 1 (Diffiniadau), 11 (Eiddo Deallusol), 12 (Gwarantau), 14 (Indemniad), 17 (Canlyniadau Dirwyn i Ben neu Derfynu), 22 (Gwrth-gyfrif), 24 (Rhwmedïau ac Ildio), 25 (Cyhoeddiadau a Chyfrinachedd), 26 (Diogelu Data), 27 (DRhG), 29 (Dehongliad) ac Atodlen 2 (Gwarantau).

## 18. Oedi a Hawliau Camu i Mewn

18.1 Os bydd S4C o'r farn bod gweithredu neu ddiffyg gweithredu gan y Cwmni yn cyfateb â thor-amod sylweddol y Cytundeb hwn gan y Cwmni neu os na fydd y Cwmni neu'r Staff yn gallu darparu'r Gwasanaethau yn unol â gofynion y Cytundeb hwn neu os bydd unrhyw rai o'r digwyddiadau a restrir yng nghymal 16.1.2 yn digwydd, neu yn debyg o ddigwydd ym marn rhesymol S4C, yna, heb amharu ar hawliau S4C yng Nghymal 16 (Terfynu), gall S4C weithredu yn unol â chymalau 18.2 a 18.3 isod.

18.2 Yn yr amgylchiadau a ddisgrifir yng nghymal 18.1, gall S4C gymryd unrhyw gamau y mae S4C yn eu hystyried yn angenrheidiol (naill ai ei hun neu thrwy gytundebu unrhyw berson neu bersonau eraill i gymryd y fath gamau) i leihau neu i gywiro'r fath sefyllfa. Gall y fath gamau gynnwys atal yn llwyr neu'n rhannol hawliau a dyletswyddau'r Cwmni o ran darparu'r Gwasanaethau o dan y Cytundeb hwn. Tra bod S4C yn ymarfer ei hawliau o dan y cymal hwn:

18.2.1 bydd y Cwmni yn sicrhau bod yr holl gyfleusterau, offer, data, cofnodion, gwybodaeth a'r personél a gytundebwyd er mwyn darparu'r Gwasanaethau, ar gael i S4C; a

18.2.2 mae'r Cwmni trwy hyn yn rhoi i S4C awdurdod llawn i weithredu o ran y fath gyfleusterau, offer, data, cofnodion, gwybodaeth a phersonél y cyfeirir atynt yn is-gymal 18.2.1 fel petai S4C oedd y Cwmni.

18.3 Os bydd S4C yn manteisio ei hawliau yn unol â chymal 18.2, am gyhyd â bod ac i'r fath raddau ag y mae'r Cwmni wedi ei atal rhag darparu unrhyw Wasanaethau:

18.3.1 bydd y Cwmni yn cael ei ryddhau o'i ddyletswyddau i ddarparu Gwasanaethau o'r fath ac ni fydd yn rhaid i S4C dalu unrhyw ran o'r Ffi sydd yn daladwy yn ystod y cyfnod oedi i'r Cwmni; a

18.3.2 bydd gan S4C yr hawl i ddi-dynnu o'r Ffi yr holl gostau a threuliau rhesymol trydydd-parti a ddioddefir gan S4C wrth fanteisio ar ei hawliau dan Gymal 18.2 ("Costau") AR YR AMOD BOB AMSER os bydd S4C wedi talu Ffi o'r fath i'r Cwmni yn barod, bydd gan S4C yr hawl i adennill y Costau o'r Cwmni fel dyled i'w thalu gan y Cwmni i S4C.

18.4 Ar ddiwedd unrhyw gyfnod oedi, ac eithrio pan fo cyfnod oedi o'r fath yn dod i ben wrth derfynu'r Cytundeb hwn:

18.4.1 bydd y Tymor yn parhau ond ni fydd yn cael ei ymestyn gymaint â hyd y cyfnod oedi; a

18.4.2 bydd y Cwmni a'r Staff yn cydweithredu gydag S4C er mwyn sicrhau trosglwyddiad di-dor ac effeithlon y Gwasanaethau yn ôl i'r Cwmni.

## 19. Argyfwng

19.1 Bydd y Cwmni yn sicrhau bod cynlluniau wrth gefn priodol a threfniadau argyfwng mewn grym drwy'r amser yn dilyn y Dyddiad Cychwyn, sydd yn caniatáu darpariaeth barhaus a di-dor y Gwasanaethau yn unol â'r Cynllun Argyfwng.

19.2 Bydd y Cynllun Argyfwng yn dod i rym er mwyn osgoi unrhyw amharu ar neu darfu ar ddarpariaeth y Gwasanaethau, neu er mwyn lleihau unrhyw amharu neu darfu gymaint ag y bo modd, o ganlyniad i unrhyw golled neu ddifrod i neu ddinistrio unrhyw isadeiledd, y ffaith nad oes unrhyw gyfleusterau, offer, personél, llyfrau, cyfrifon neu gofnodion cyfrifiadurol neu ffisegol a ddefnyddir gan y Cwmni wrth ddarparu'r Gwasanaethau, ar gael.

19.3 Os digwydd unrhyw ddigwyddiad a fyddai fel arall yn amharu'n sylweddol ar ddarpariaeth y Gwasanaethau i S4C, bydd y Cwmni yn gweithredu ei drefniadau wrth gefn er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau a nodir yng nghymal 16.1. Rhaid i bob parti hysbysu'r llall cyn gynted ag y bydd yn ymwybodol bod digwyddiad o' fath wedi digwydd neu pan fydd yn ymwybodol o unrhyw faterion, ffeithiau neu amgylchiadau o'r fath sydd yn dynodi bod digwyddiad o'r fath yn debygol o ddigwydd.

## 20. Aseinio ac Is-Gontractio

20.1 Bydd S4C yn rhydd i aseinio, newyddu, is-gontractio neu fel arall waredu ei hawliau neu ei dyletswyddau dan y Cytundeb hwn a/neu unrhyw ran ohono a bydd y Cwmni yn arwyddo'r cyfryw weithredoedd newyddu parthed yr uchod ag y gall S4C ofyn iddo wneud yn rhesymol.

20.2 Mae'r Cytundeb hwn yn bersonol i'r Cwmni. Felly, ni fydd y Cwmni yn aseinio, yn newyddu, yn is-gontractio neu fel arall yn gwaredu ai hawliau neu ei ddyletswyddau dan y Cytundeb hwn neu unrhyw ran ohono heb ganiatâd ysgrifenedig S4C ymlaen llaw a bydd gan S4C yr hawl i oedi neu i wrthod ei chaniatâd yn ôl disgresiwn rhesymol S4C.

## 21. Force Majeure

21.1 Ystyr "Force Majeure" yw unrhyw un o'r digwyddiadau neu'r amgylchiadau canlynol: tân, llifogydd, trychineb genedlaethol, terfysg, gweithred Ddwyfol, gweithred o derfysgaeth, rhyfel neu wrthdaro arfog, gweithredu unrhyw ddeddf seneddol sydd yn newid statws S4C fel darlledwr neu unrhyw gyfarwyddyd gan Ofcom i S4C.

21.2 Os digwydd gweithred o Force Majeure, bydd y parti sydd yn cael ei effeithio yn rhybuddio'r llall yn ddi-oed yn ysgrifenedig a chyhyd ag y bo'r anallu i gadw at neu i gyflawni unrhyw ddyletswydd dan y Cytundeb hwn yn deillio o'r weithred honno o Force Majeure, ystyrir bod gweithredu'r dyletswyddau yr effeithir arnynt yn cael ei ohirio o ddyddiad y cyflwynir y cyfryw rybudd nes cael gwared ar y cyfryw anallu neu nes y terfynir y Cytundeb hwn yn gynnar yn unol â chymal 21.3. Mae'r ddau barti yn cytuno gwneud pob ymdrech resymol i leihau a chwtogi unrhyw gyfnod o oedi, a'r holl gostau a threuliau a gyfyd o weithred Force Majeure.

21.3 Os bydd gweithred Force Majeure yn digwydd ac yn parhau am gyfnod o ddeg diwrnod ar hugain (30) neu fwy, yna bydd gan S4C yr hawl i derfynu'r Cytundeb hwn trwy roi rhybudd ysgrifenedig i'r Cwmni.

## 22. Gwrth-Gyfrif

Mae gan S4C yr hawl i osod yr unrhyw a phob arian sydd yn ddyledus gan y Cwmni iddi yn erbyn unrhyw swm sy'n ddyledus gan S4C i'r Cwmni boed o dan y Cytundeb hwn neu unrhyw gytundeb arall rhwng y partïon neu yn sgil unrhyw setliad neu ddyfarniad sydd yn goblygu bod iawndal neu indemniad yn ddyledus mewn cysylltiad â'r Cytundeb hwn, boed y ddyled yn ddyledus nawr neu ar unrhyw bryd yn y dyfodol, boed yn swm penodedig (liquidated) ai peidio ac os yw'n wirioneddol neu'n amodol. Ni fydd unrhyw weithrediad gan S4C o'i hawliau yn unol â'r cymal hwn yn niweidiol i unrhyw hawl neu rwymedi arall sydd ar gael i S4C, boed hynny yn unol â'r Cytundeb hwn neu fel arall.

## 23. Rhybuddion

23.1 Bydd unrhyw rybudd a roddir neu a wneir o dan neu mewn cysylltiad â'r Cytundeb hwn yn ysgrifenedig a chaiff ei roi neu ei gyflwyno i'r parti sydd i'w dderbyn yn y cyfeiriad a nodir ar ddechrau'r Cytundeb hwn neu ei gyflwyno trwy drosglwyddiad ffacs i rif ffacs y parti i'w dderbyn a bennir yng nghymal 23.3, wedi ei nodi at sylw y person a bennir isod (neu unrhyw eilydd a hysbysir gan y parti i dderbyn y rhybudd i'r llall o bryd i'w gilydd).

23.2 Ystyrir bod pob rhybudd a gyflwynir yn unol â darpariaethau cymal 23.3, wedi ei roi neu ei gyflwyno'n ddilys, yn achos rhybudd wedi ei gyflwyno â llaw, wedi iddo gael ei gyflwyno yng nghyfeiriad y sawl sydd i'w dderbyn neu os bydd wedi ei gyflwyno i swyddfa'r post, a'r swm cywir wedi ei dalu ymlaen llaw er mwyn ei anfon gyda'r post dosbarth cyntaf, ar yr ail (2) Ddiwrnod Gwaith ar ôl ei bostio, neu os y'i cyflwynwyd trwy drosglwyddiad ffacs, ar adeg ei drosglwyddo, ar yr amod os, yn unol â'r darpariaethau uchod, y byddai unrhyw rybudd fel arall yn cael ei ystyried wedi ei gyflwyno neu ei roi ar ddiwrnod nad yw'n Ddiwrnod Gwaith, neu ar ôl 5.30 y.h. ar Ddiwrnod Gwaith, ystyrir bod y fath rybudd wedi ei roi neu ei gyflwyno am 9.00 y.b. ar y Diwrnod Gwaith dilynol.

23.3 S4C

| | |
|---|---|
| At Sylw: | Cynrychiolydd S4C<br>Gyda chopi i'r Pennaeth Cyfreithiol a Busnes |

Y Cwmni

| | |
|---|---|
| At Sylw: | [...................................] |

23.4 Ni ddehonglir neu ystyrir unrhyw beth yn y cymal 23 hwn fel cytundeb ar ran S4C i dderbyn cyflwyno unrhyw achosion cyfreithiol trwy drosglwyddiad ffacs neu e-bost.

## 24. Rhwymedïau ac Ildio

24.1 Ni fydd unrhyw ildiad gan barti ynghylch unrhyw dor-amod o ran unrhyw rai o ddarpariaethau'r Cytundeb hwn yn effeithiol oni chaiff ei roi mewn y rhaglen.

24.2 Ni fydd unrhyw fethiant neu oedi ar ran y naill barti i ymarfer unrhyw hawl, pŵer neu rwymedi sydd gan y fath barti dan y Cytundeb hwn dan unrhyw amgylchiadau, yn amharu ar neu'n gwanhau'r fath hawl, pŵer neu rwymedi nac yn gweithredu fel ildiad ohonynt. Ni fydd unrhyw ymarferiad unigol neu rannol gan y naill barti i'r Cytundeb hwn o unrhyw hawl, pŵer neu rwymedi nac ar unrhyw ymarfer o unrhyw hawl, pŵer neu rwymedi arall.

24.3 Mae hawliau, pwerau a rhwymedïau S4C a ddarperir dan y Cytundeb hwn yn gronnol ac nid ydynt yn nacáu unrhyw hawliau, pwerau neu rwymedïau a ddarperir gan y gyfraith.

24.4 Ni ddehonglir unrhyw ildiad o unrhyw dor-amod neu fethu â chyflawni unrhyw rai o delerau'r Cytundeb hwn fel ildiad o unrhyw dor-cytundeb neu fethiant hwyrach ac ni fydd mewn unrhyw fodd yn effeithio ar delerau eraill y Cytundeb hwn.

## 25. Cyhoeddiadau a Chyfrinachedd

25.1 Bydd y Cwmni yn defnyddio Gwybodaeth Gyfrinachol S4C at ddibenion cyflawni ei ddyletswyddau dan y Cytundeb hwn yn unig ac yn ddarostyngedig i ddarpariaethau cymal 25.2, ni fydd yn datgelu Gwybodaeth Gyfrinachol S4C i unrhyw berson arall ac eithrio dan amgylchiadau o gyfrinachedd i'r Staff os oes angen iddynt fod yn ymwybodol ohoni yn unig, a bydd y Cwmni yn cymryd pob cam ag y gall S4C fynnu yn rhesymol i orfodi unrhyw ddyletswyddau cyfrinachedd o'r fath yn erbyn unrhyw Staff.

25.2 Ni fydd y cyfyngiadau ar ddatgelu gwybodaeth a gynhwysir yng nghymal 25.2 yn weithredol i unrhyw wybodaeth sydd:

25.2.1 yn gyhoeddus neu a ddaw yn gyhoeddus ac eithrio o ganlyniad i, unrhyw dorri ar y cyfyngiadau ar ddatgelu gan y Cwmni neu unrhyw Staff; neu,

25.2.2 y mae'n ofynnol i'w datgelu o dan y gyfraith neu i unrhyw gorff rheoleiddio y mae'r partïon yn gorfod cydymffurfio â'i reolau, ar yr amod bod y Cwmni, i'r graddau y caniateir yn gyfreithiol i wneud hynny, yn rho ii S4C cymaint o rybudd â phosib o'r fath ddatgeliad.

25.3 Ar derfynu'r Cytundeb hwn, bydd y Cwmni yn:

25.3.1 dychwelyd i S4C pob dogfen a deunydd (ac unrhyw gopïau) sy'n cynnwys, yn adlewyrchu, yn ymgorffori neu'n seiliedig ar Wybodaeth Gyfrinachol S4C;

25.3.2 yn dileu holl Wybodaeth Gyfrinachol S4C o systemau cyfrifiadurol a chyfathrebu a dyfeisiadau a ddefnyddir ganddo, gan gynnwys systemau o'r fath a gwasanaethau storio data a ddarperir gan drydydd partïon (i'r graddau sy'n dechnegol ymarferol); ac

25.3.3 yn tystio'n ysgrifenedig ei fod wedi cydymffurfio â gofynion y cymal hwn, ar yr amod y gall y Cwmni gadw dogfennau a deunydd sy'n cynnwys, yn adlewyrchu, yn ymgorffori neu'n seiliedig ar Wybodaeth Gyfrinachol S4C i'r graddau sy'n ofynnol o dan y gyfraith neu unrhyw gorff rheoleiddio perthnasol.

25.4 Ac eithrio fel a nodir yn benodol yn y Cytundeb hwn, nid yw S4C yn gwneud unrhyw warant neu ddatganiad boed yn echblyg neu'n ymhlyg ynglyn â Gwybodaeth Gyfrinachol S4C.

25.5 Mae S4C yn cadw pob hawl yng Ngwybodaeth Gyfrinachol S4C. Ni roir unrhyw hawliau mewn perthynas â Gwybodaeth Gyfrinachol S4C i'r Cwmni ac eithrio'r rhai a nodir yn benodol yn y Cytundeb, ac nid oes unrhyw hawl yn ymhlyg yn y Cytundeb.

25.6 Bydd darpariaethau'r cymal 25 hwn yn parhau yn weithredol wedi terfynu'r Cytundeb hwn.

**26. Diogelu Data**

26.1 Cyn trosglwyddo unrhyw Ddata Personol i S4C, bydd y Cwmni yn sicrhau bod ganddo sail gyfreithiol briodol i drosglwyddo'r Data Personol i S4C a'i fod wedi sicrhau sail gyfreithiol briodol i alluogi S4C i brosesu'r Data Personol ar gyfer pwrpasau ymelwa ar Gynnyrch y Gwasanaethau ac wrth weinyddu'r Cytundeb hwn. Lle'n briodol, bydd y Cynhyrchydd yn sicrhau cytundeb cyfrannydd wedi ei arwyddo (mewn ffurf a gytunwyd rhwng y partïon) gan bob cyfrannydd sy'n nodi mai'r sail gyfreithiol ar gyfer prosesu data personol nad yw'n ddata personol categori arbennig yw ar gyfer gweithredu'r cytundeb. Caiff yr holl Ddata Personol a gyflenwir i S4C ei brosesu gan S4C yn unol â pholisi diogelu data S4C a hysbysiad preifatrwydd perthnasol S4C sydd mewn grym o bryd i'w gilydd.

26.2 Heb amharu ar gyffredinolrwydd cymal 26.1 uchod, bydd y Cynhyrchydd yn sicrhau bod yr holl gytundebau â chyfranwyr a adnabyddir yng Nghynnyrch y Gwasanaethau yn cynnwys y bydd S4C yn rheolwr data mewn perthynas â Data Personol y cyfrannwr perthnasol ar gyfer pwrpas ymelwa ar Gynnyrch y Gwasanaethau, ac yn cyfeirio'r cyfranwyr at ddolen gyswllt i Hysbysiad Preifatrwydd S4C (sydd ar gael ar http://www.s4c.cymru/media/media_assets/2018.11.29_Hysbysiad_Preifatrwydd_Cyfranwyr.pdf).

26.3 Mae'r ddau barti yn cytuno i gydymffurfio â holl ofynion perthnasol y Cyfreithiau Diogelu Data. Mae'r cymal 26.3 hwn yn ychwanegol i, ac nid yw'n lleddfu, disodli na chael gwared ar ddyletswydd unrhyw barti o dan y Cyfreithiau Diogelu Data.

26.4 Heb amharu ar gyffredinolrwydd cymal 26.3 uchod, bydd y ddau barti, mewn perthynas ag unrhyw Ddata Personol a brosesir yn gysylltiedig â pherfformiad gan y Cynhyrchydd o'i ddyletswyddau o dan y Cytundeb hwn yn:

26.4.1 rhoi cymorth i'r parti arall, heb dâl, i ymateb i unrhyw gais gan oddrych data ac wrth sicrhau cydymffurfiaeth â'i ddyletswyddau o dan y Cyfreithiau Diogelu Data mewn perthynas â diogelwch, hysbysiadau torri

(*breach*), asesiadau effaith, ac ymgynghoriadau gydag awdurdodau goruchwylio neu reoleiddwyr;

26.4.2 cadw cofnodion, polisïau a gweithdrefnau digonol i ddangos ei fod yn cydymffurfio â'r Cyfreithiau Diogelu Data, ac yn gwneud y fath gofnodion, polisïau a gweithdrefnau ar gael i'r parti arall ar ofyn rhesymol; ac

26.4.3 apwyntio swyddog diogelu data os yw'n ofynnol iddo wneud hynny o dan y Cyfreithiau Diogelu Data, neu, lle nad yw'n ofynnol iddo wneud hynny, i apwyntio unigolyn sydd â chyfrifoldeb dros ddiogelu data a hysbysu'r parti arall o enw'r unigolyn hynny.

26.5 Heb amharu ar gyffredinolrwydd cymal 26.3, mae'r partïon yn cytuno, mewn perthynas ag unrhyw Ddata Personol a brosesir gan y parti hwnnw fel prosesydd yn unig ar ran y parti arall fel rheolwr o dan y Cytundeb hwn, y bydd y prosesydd yn:

26.5.1 prosesu'r Data Personol ar gyfarwyddyd ysgrifenedig y rheolwr yn unig ac, ar gais ysgrifenedig y rheolwr, yn dileu neu ddychwelyd y Data Personol a chopïau ohono i'r rheolwr ar derfyn y Cytundeb hwn (oni bai ei fod wedi ei wahardd rhag gwneud hynny o dan unrhyw gyfreithiau perthnasol);

26.5.2 caniatáu archwiliadau gan y rheolwr neu ei archwiliwr dynodedig o weithdrefnau a phrosesau diogelu data y prosesydd mewn perthynas â'r Cytundeb hwn;

26.5.3 sicrhau bod ganddo mewn lle fesurau technegol a sefydliadol addas er mwyn diogelu rhag prosesu anawdurdodedig neu anghyfreithlon o'r Data Personol a rhag colled damweiniol neu ddinistrio, neu niwed i'r Data Personol, sy'n briodol i'r niwed a allai ddeillio o'r prosesu anawdurdodedig neu anghyfreithlon neu golled damweiniol, ddinistrio neu niwed, a natur y data i'w ddiogelu, gan roi ystyriaeth i gyflwr datblygiad technolegol a'r gost o weithredu unrhyw fesurau (gall y mesurau hynny gynnwys, lle'n briodol, anonymeiddio ac encryptio'r Data Personol, sicrhau cyfrinachedd, uniondeb, argaeledd a gwydnwch ei systemau a gwasanaethau, gan sicrhau y gellir adfer argaeledd a mynediad i'r Data Personol mewn modd amserol ar ôl digwyddiad, ac asesu a gwerthuso effeithiolrwydd y mesurau technegol a sefydliadol a fabwysiadwyd ganddo yn rheolaidd);

26.5.4 sicrhau bod unrhyw bersonél sydd â mynediad i ac/neu sy'n prosesu Data Personol o dan ddyletswydd i gadw'r Data Personol yn gyfrinachol, eu bod yn ddibynadwy ac yn deall dyletswyddau cytundebol y prosesydd i'r llall;

26.5.5 peidio â throsglwyddo unrhyw Ddata Personol y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd nac yn apwyntio unrhyw drydydd parti i brosesu'r Data Personol oni bai ei fod wedi sicrhau caniatâd ysgrifenedig gan y parti arall; a

26.5.6 hysbysu'r parti arall heb oedi gormodol ac heb fod yn hwyrach nac o fewn 24 awr i ddod yn ymwybodol o dorri Data Personol (*data breach*). Dylid hysbysu S4C trwy ddefnyddio'r cyfeiriad ebost canlynol: data@s4c.cymru

26.6 Mae cyfreithiau a chanllawiau yn ymwneud â Data Personol yn datblygu'n rheolaidd a gall S4C, ar unrhyw adeg ar roi dim llai na 30 diwrnod o rybudd, amrywio'r cymal

26 hwn er mwyn adlewyrchu unrhyw newid mewn arfer da neu ganllawiau gan eu hamnewid ag unrhyw gymalau safonol rheolwr i brosesydd perthnasol neu delerau tebyg sy'n ffurfio rhan o gynllun ardystio perthnasol (a fydd yn weithredol unwaith y byddant wedi eu hamnewid trwy atodiad i'r Cytundeb hwn).

## 27. DRhG

27.1 Mae'r Cwmni yn cydnabod bod S4C yn gorff cyhoeddus sydd yn ddarostyngedig i ofynion y DRhG a'r Rheoliadau a bydd yn cynorthwyo ac yn cydweithio ag S4C i alluogi S4C i gydymffurfio â'i dyletswyddau oddi tanynt ac, yn y cyswllt hwn, bydd y Cwmni ac yn peri i'r Staff:

27.1.1 ddarparu copi o'r holl wybodaeth berthnasol yn ei feddiant neu o fewn ei rym i S4C yn y ffurf mae ei angen ar S4C; a

27.1.2 darparu'r holl gymorth angenrheidiol y bydd S4C yn gofyn amdano'n rhesymol i alluogi S4C i ymateb i gais am wybodaeth cyn pen yr amser cydymffurfio a bennir yn adran 10 y DRhG neu reoliad 5 y Rheoliadau

ar yr amod bod S4C yn rhoi rhybudd ysgrifenedig rhesymol i'r Cwmni ymlaen llaw (a chaiff rhesymoldeb y rhybudd ei farnu yng nghyd-destun yr amserlen statudol ar gyfer darparu'r wybodaeth).

27.2 Bydd S4C yn gyfrifol am bennu os yw'r wybodaeth:

27.2.1 wedi'i heithrio o'i datgelu yn unol â darpariaethau DRhG neu'r Rheoliadau; neu

27.2.2 i'w datgelu mewn ymateb i gais am wybodaeth, ac ni fydd y Cwmni yn ymateb yn uniongyrchol ar unrhyw gyfrif i gais am wybodaeth oni bai y caiff ei awdurdodi yn benodol gan S4C i wneud hynny ar ran S4C.

27.3 Mae'r Cwmni yn cydnabod y gall S4C gael ei gorfodi dan DRhG, neu'r Rheoliadau, i ddatgelu gwybodaeth neu y gall benderfynu bod cydymffurfio â chais penodol am wybodaeth yn gwasanaethu'r budd cyhoeddus yn fwy na gwrthod y cais yn unol ag unrhyw eithriad perthnasol. Bydd S4C yn ymgynghori â'r Cwmni pan fo hynny'n ymarferol ac yn ystyried ei farn. Pan fo barn y Cwmni yn mynd yn groes i'r cyngor cyfreithiol y mae S4C wedi'i gael, ni fydd unrhyw beth yn y Cytundeb hwn yn atal S4C rhag gweithredu yn unol â'r cyngor cyfreithiol a gafwyd ganddo.

27.4 Bydd y Cwmni yn sicrhau bod yr holl wybodaeth a gynhyrchir tra'n cyflawni ei ddyletswyddau dan y Cytundeb hwn neu sydd yn gysylltiedig â'r Cytundeb hwn, yn cael ei chadw ar gyfer ei datgelu a bydd yn caniatáu S4C i archwilio'r cyfryw wybodaeth ar gais S4C o bryd i'w gilydd.

## 28. Atal Llygredigaeth a Thwyll

28.1 Ni fydd y Cwmni yn cynnig neu roi, neu'n cytuno i gynnig neu roi, i S4C neu i unrhyw gorff cyhoeddus arall neu i unrhyw berson a gyflogir gan neu ar ran S4C neu unrhyw gorff cyhoeddus arall, unrhyw rodd neu ystyriaeth o unrhyw fath fel cymhelliad neu wobr am wneud, peidio â gwneud, neu am fod wedi gwneud neu wedi peidio â gwneud, unrhyw weithred amhriodol mewn perthynas â sicrhau neu weithredu'r Cytundeb neu unrhyw gytundeb arall gyda S4C neu unrhyw gorff cyhoeddus arall, neu am ddangos neu ymatal rhag dangos ffafriaeth neu

anffafriaeth tuag at unrhyw berson mewn perthynas â'r Cytundeb neu unrhyw gytundeb o'r fath.

28.2 Mae'r Cwmni'n gwarantu nag ydyw wedi talu comisiwn neu wedi cytuno i dalu comisiwn i S4C neu unrhyw gorff cyhoeddus arall neu i unrhyw berson a gyflogir gan neu ar ran S4C neu unrhyw gorff cyhoeddus arall mewn perthynas â'r Cytundeb.

28.3 Bydd y Cwmni'n cymryd pob cam rhesymol i atal Twyll gan y Cwmni ac/neu ei Staff (gan gynnwys ei gyfranddalwyr, aelodau, cyfarwyddwyr) mewn perthynas ag arian a dderbynnir gan S4C a bydd yn hysbysu S4C ar unwaith os oes ganddo reswm i amau fod unrhyw Dwyll wedi digwydd, yn digwydd neu'n debygol o ddigwydd.

28.4 Os bydd y Cwmni, ei Staff neu unrhyw un sy'n gweithredu ar ran y Cwmni, yn ymddwyn mewn modd a waherddir gan gymalau 24.1 neu 24.2 uchod ac/neu yn cymryd rhan mewn Twyll mewn perthynas â'r Cytundeb hwn neu unrhyw gytundeb arall gyda S4C, gall S4C:

28.4.1 derfynu'r Cytundeb ac adennill gan y Cwmni unrhyw golled a ddioddefir gan S4C o ganlyniad i'r terfyniad gan gynnwys unrhyw gostau rhesymol i S4C o ganlyniad i wneud trefniadau eraill ar gyfer cyflenwi'r Gwasanaethau ac unrhyw wariant ychwanegol dilynol i S4C drwy weddill y Tymor; neu

28.4.2 adennill yn llwyr gan y Cwmni unrhyw golled arall a ddioddefir gan S4C o ganlyniad i dorri'r fath gymalau.

## 29. Dehongliad

29.1 Cytunir bod y Cwmni yn ymrwymo i'r Cytundeb hwn ac yn cyflawni ei ddyletswyddau fel contractwr annibynnol, ac ni fydd dim yn y Cytundeb hwn yn awgrymu bod unrhyw fath o bartneriaeth neu fenter ar y cyd rhwng y Cwmni ac S4C, ac ni fydd y naill barti na'r llall yn honni ei fod yn gweithredu fel asiant ar ran y llall.

29.2 Mae'r Cwmni yn ymrwymo ac yn cytuno y bydd y Cwmni yn ymrwymo i'r holl gytundebau sydd yn berthnasol i ddarparu'r Gwasanaethau fel pennaeth y cytundeb hwnnw, ac na fydd gan S4C unrhyw atebolrwydd fel pennaeth y Cwmni nas dadlennwyd, ac na fydd y Cwmni yn ymrwymo credyd S4C nac yn gwneud unrhyw drefniadau cytundebol ar ran S4C.

29.3 Os bydd llys yn gwahardd unrhyw un o ddarpariaethau'r Cytundeb hwn neu'n barnu bod unrhyw un o'r darpariaethau hynny'n anghyfreithlon, yn ddi-rym neu'n un na ellir ei gweithredu, yna bydd cymaint ag sydd yn angenrheidiol o'r ddarpariaeth honno'n cael ei dileu o'r Cytundeb hwn, a'i gwneud yn aneffeithiol ac ni fydd yn effeithio mewn unrhyw ffordd ar unrhyw ddarpariaeth arall yn nac ar ddilysrwydd na gweithredu'r Cytundeb hwn.

29.4 Ac eithrio unrhyw ddatganiadau twyllodrus, mae'r Cytundeb hwn yn cynnwys y cytundeb cyfan rhwng y partïon i'r Cytundeb hwn mewn cysylltiad â thestun y Cytundeb hwn a bydd yn disodli pob cytundeb a dyletswydd blaenorol mewn perthynas â darparu'r Gwasanaethau ac ni ddibynnodd y naill barti ar unrhyw ddatganiad heblaw am y datganiadau a nodir yn benodol yn y Cytundeb hwn.

29.5 Nid yw'r Cytundeb hwn yn creu neu'n breinio unrhyw hawliau dan Ddeddf Contractau (Hawliau Trydydd-Bartïon) 1999 y gellir eu gweithredu gan unrhyw berson nad yw'n barti i'r Cytundeb hwn, oni bai fod gan unrhyw olynydd mewn teitl neu aseiniad o S4C yr hawl i orfodi'r Cytundeb hwn.

29.6 Ni fydd unrhyw amrywiad i'r Cytundeb hwn yn cael unrhyw effaith neu rym oni bai ei fod yn ysgrifenedig ac wedi ei lofnodi gan gynrychiolwyr awdurdodedig y partïon.

29.7 Dehonglir y Cytundeb hwn fel cytundeb a wnaed yng Nghymru, ac yn ddarostyngedig i gyfreithiau Cymru a Lloegr ac i awdurdodaeth ecsgliwsif Llysoedd Cymru a Lloegr.

**YN DYST** i hyn mae'r partïon i'r Cytundeb hwn wedi arwyddo'r Cytundeb hwn ar y dyddiad a'r flwyddyn a bennir uchod ar ddechrau'r Cytundeb hwn.

Arwyddwyd gan gynrychiolydd awdurdodedig
dros ac ar ran
**S4C**

Llofnod ................................................................

Enw .....................................................................

Arwyddwyd fel **Gweithred** gan
**Y CWMNI**
Drwy ei gynrychiolydd awdurdodedig

Llofnod ................................................................

Enw .....................................................................

ym mhresenoldeb .................................................. (Tyst)

Enw .....................................................................

Cyfeiriad ...............................................................

Swydd ...................................................................

# ATODLEN 1

## GWASANAETHAU

**Rhan 1**

***[Cytunir ar fanylion y disgrifiad o'r Gwasanaethau rhwng S4C a'r cynigydd llwyddiannus yn seiliedig ar ofynion y ddogfen Gwahoddiad i Dendro a chyflwyniad tendr y cynigydd llwyddiannus.]***

**Rhan 2**

**CYMERADWYAETH S4C**

***[I'w cytuno rhwng S4C a'r cynigydd llwyddiannus yn seiliedig ar y tendr llwyddiannus.]***

## ATODLEN 2

## GWARANTAU

1. Mae'r Cwmni yn addo, yn gwarantu ac yn ymrwymo ag S4C fel a ganlyn:

a) y mae wedi ei sefydlu a'i sefydlu a'i ymgorffori yn ddilys o dan gyfreithiau Cymru a Lloegr a bod ganddo y pŵer corfforaethol i berchen ar ei asedau ei hun ac i gynnal a rhedeg ei fusnes yn y modd y mae'n cael ei gynnal a'i redeg ar hyn o bryd;

b) bod ganddo y pŵer i arwyddo'r Cytundeb hwn ac i ymarfer ei hawliau ac i gyflawni ei ddyletswyddau dan y Cytundeb hwn;

c) nad yw arwyddo, cyfleu a gweithredu'r Cytundeb hwn gan y Cwmni yn mynd yn groes i unrhyw ddarpariaeth:

(i) ym Memorandwm ac Erthyglau Ymgorffori'r Cwmni;

(ii) mewn unrhyw orchymyn neu archddyfarniad gan unrhyw lys neu gyflafareddwr; neu

(iii) mewn unrhyw ddyletswydd sydd yn rhwymo'r Cwmni neu unrhyw rai o'i asedau neu ei enillion;

d) bod y wybodaeth, y datganiadau a'r materion ffeithiol eraill a gofnodwyd ar bapur yn ysgrifenedig i S4C gan y Cwmni mewn cysylltiad â neu'n tarddu o'i dendr, yn gywir a chyflawn ymhob agwedd o sylwedd ar y dyddiad y cyflwynwyd hwy i S4C, ac y bydd y Cwmni yn hysbysu S4C yn syth os na fydd gwybodaeth o'r fath yn gywir ac yn parhau i fod yn gywir a chyflawn;

e) nid oes unrhyw hawliad yn cael ei ystyried ar hyn o bryd ac nid oes unrhyw gyfreitha, cyflafareddiad nac achosion gweinyddol ar droed ar hyn o bryd nac, hyd eithaf gwybodaeth y Cwmni, yn yr arfaeth neu wedi eu bygwth yn erbyn y Cwmni neu ei asedau sydd yn arwyddocaol ac a fydd yn cael neu sydd yn debygol o gael effaith andwyol sylweddol ar allu'r Cwmni i gyflawni ei ddyletswyddau o dan y Cytundeb hwn;

f) nid yw'n rhwym i unrhyw ddyletswydd arall, y byddai cydymffurfio â hi yn cael neu'n debygol o gael effaith andwyol sylweddol ar allu'r Cwmni i gyflawni ei ddyletswyddau o dan y Cytundeb hwn;

g) nid oes unrhyw achosion neu gamau eraill wedi eu cymryd a heb eu rhyddhau (nac, hyd eithaf gwybodaeth y Cwmni, wedi eu bygwth) ar gyfer dirwyn y Cwmni i ben neu ei ddiddymu neu er mwyn penodi derbynnydd, derbynnydd gweinyddol, gweinyddwr, diddymwr, ymddiriedolwr neu swyddog tebyg parthed unrhyw rai o'i asedau neu ei enillion;

h) yn amodol ar gymal xx o'r Cytundeb, na fydd yn dadlennu, dangos neu'n datgan ar goedd unrhyw wybodaeth ariannol neu Wybodaeth Gyfrinachol arall yn gysylltiedig â'r Cytundeb hwn neu fusnes S4C a bydd hyn oll yn cael ei gadw'n hollol gyfrinachol;

i) y bydd y Gwasanaethau yn cael eu darparu a'u cyflawni i'r safon uchaf bosibl ac y bydd y Cwmni yn ymddwyn bob amser mewn ffordd sy'n cynnal ac yn hyrwyddo enw da S4C ac na fydd yn gwneud unrhyw beth nac yn ymddwyn mewn unrhyw ffordd a allai effeithio'n niweidiol ar ewyllys neu enw da S4C;

j) wrth ddarparu'r Gwasanaethau, na fydd y Cwmni yn a bydd y Cwmni yn sicrhau na fydd y Staff yn tarfu ar unrhyw hawliau unrhyw berson, ac na fydd yn cyflawni unrhyw weithred enllibus, cableddus na difenwol, nac yn torri darpariaethau unrhyw Gyfreithiau Perthnasol;

k) mai'r Cwmni yw unig berchennog ecsgliwsif dilyffethair cyfreithiol a llesiannol yr holl hawliau angenrheidiol i berfformio'r Gwasanaethau ac ar gyfer aseinio'r hawliau a roddwyd i S4C o dan y Cytundeb hwn;

l) wrth ymdrin â phlant wrth ddarparu'r Gwasanaethau bydd egwyddorion amddiffyn plant o'r pwys mwyaf a bydd Polisi Amddiffyn Plant S4C yn cael ei weithredu bob amser;

m) y bydd yn cydymffurfio â holl Gyfreithiau Perthnasol, statudau rheolau, rheoliadau a gofynion gweithredol pob asiantaeth lywodraethol a chorff rheoli mewn cysylltiad â darparu'r Gwasanaethau yn sgil y Cytundeb hwn;

n) na fydd unrhyw beth yn y Gwasanaethau a/neu Gynnyrch y Gwasanaethau yn torri ar unrhyw hawliau unrhyw berson, yn enllibus, yn gableddus, yn torri darpariaethau unrhyw Gyfreithiau Perthnasol, yn gyfystyr â Dirmyg Llys, yn hyrwyddo trais neu weithredoedd anghyfreithlon, yn gwahaniaethu ar sail hil, rhyw, crefydd, cenedligrwydd, anabledd neu oedran nac yn rhoi mynediad i unrhyw feirws, mwydyn, ceffyl pren Troea, "ysbïwedd" neu ddeunydd dinistriol arall tebyg y gellir ei ddefnyddio mewn modd sy'n amharu gyda neu'n mynd i mewn i, yn newid, dileu neu'n difrodi unrhyw ffeiliau data neu feddalwedd cyfrifiadur arall; ac

o) mae gan y Cwmni, neu fe fydd gan y Cwmni o'r Dyddiad Cychwyn, fesurau diogelwch technegol a sefydliadol digonol mewn grym, gan gynnwys offer a meddalwedd bâs data, sydd yn llywodraethu'r gwaith o brosesu'r Data Personol ac arferion gwaith unrhyw gyflogedigion sydd yn ymwneud â gwaith prosesu o'r fath yn unol â gofynion y Cyfreithiau Diogelu Data.

## ATODLEN 3

## PERSONÉL ALLWEDDOL

***I'w cytuno rhwng S4C a'r cynigydd llwyddiannus yn seiliedig ar y tendr llwyddiannus.]***

## ATODLEN 4

## [FFI]

***[Atodlen i'w chynnwys yn ô yr angen yn dilyn cytundeb rhwng S4C a'r cynigydd llwyddiannus yn seiliedig ar y tendr llwyddiannus.]***

## ATODLEN 5

## Y DREFN GYFATHREBU

***[Cytunir ar fanylion y Drefn Gyfathrebu rhwng S4C a'r cynigydd llwyddiannus yn seiliedig ar y ddogfen gwahoddiad i dendro a'r tendr llwyddiannus. Rhaid i'r drefn nodi manylion ynghylch:***

***(B)*** ***dyletswyddau adrodd y Cwmni i S4C gan gynnwys natur, cynnwys, cynllun ac amlder adroddiadau i'w darparu gan y Cwmni i S4C mewn cysylltiad â'r ymholiadau, y sylwadau a'r cwynion a dderbynnir;***

***(C)*** ***dyletswyddau adrodd y Cwmni i S4C mewn cysylltiad â gweithrediad y Gwasanaeth gan gynnwys materion staffio, materion technegol a materion eraill; a'r***

***(D)*** ***gweithdrefnau er mwyn darparu gwybodaeth gan S4C i'r Cwmni mewn cysylltiad â Gwasanaethau S4C a chyfrifoldebau staff S4C.]***

## ATODLEN 6

## CYNLLUN ARGYFWNG

***[I'w gytuno rhwng S4C a'r cynigydd llwyddiannus.]***

# ATODLEN 8

## TRWYDDED BRAND

DYDDIAD 2019

PARTÏON

(1) S4C o Ganolfan S4C: Yr Egin, Caerfyrddin, SA31 3EQ ("**y Trwyddedwr**")

(2) [ ] Cwmni wedi ei gofrestru yng Nghymru a Lloegr dan rif y mae ei swyddfa gofrestredig yn .................................... (y "**y Trwyddedai**")

CYFLWYNIAD

(A) Y Trwyddedwr sy'n berchen ar yr holl hawliau yn y Nod Masnach yn y Diriogaeth (y naill a'r llall fel y diffinnir isod)

(B) Mae'r Trwyddedwr wedi penodi'r Trwyddedai i ddarparu gwasanaethau yn unol â'r Cytundeb Gwasanaethau.

(C) I'r perwyl hwn mae'r Trwyddedai yn dymuno trwyddedu'r Nod Masnach gan y Trwyddedwr ar delerau ac yn amodol i amodau'r Drwydded hon, ac mae'r Trwyddedwr yn cytuno i ganiatáu trwydded o'r fath.

DARPARIAETHAU GWEITHREDOL

**1 Diffiniadau**

1.1 Yn y Cytundeb hwn, gan gynnwys y Cyflwyniad, ac oni fynnir fel arall gan y cyd-destun, bydd i'r ymadroddion canlynol yr ystyron canlynol:

| | |
|---|---|
| "Dyddiad effeithiol" | Dyddiad y Cytundeb hwn. |
| "Deunyddiau" | Unrhyw ddeunydd rhaglennu, cysylltiadau (links), cynhyrchion, nwyddau marsiandïaeth hyrwyddo, hysbysebu ac unrhyw ddeunydd arall mewn unrhyw gyfrwng, pa un ai'n gyffyrddadwy neu yn anghyffyrddadwy, ac yn cynnwys ond heb ei gyfyngu i'r holl dudalennau o unrhyw wefannau:<br><br>(a) y defnyddir y Nod Masnach arnynt neu ynddynt; a/neu<br><br>(b) a ddefnyddir neu a gynhyrchir gan y Trwyddedai neu ei is-drwyddedai yng nghyswllt cyflawni eu dyletswyddau yng nghyswllt cyflawni eu dyletswyddau neu ymarfer eu hawliau yn y Cytundeb Gwasanaethau. |
| "Cytundeb Gwasanaethau" | Y cytundeb dyddiedig [ ] rhwng y Trwyddedwr a'r Trwyddedai lle y penodwyd y Trwyddedai i ddarparu gwasanaethau fel y gosodir allan yn helaethach ynddo. |
| "Cyfnod" | Cyfnod y Drwydded hon fel y gosodir allan yng nghymal 6. |

| | |
|---|---|
| "Tiriogaeth" | Y bydysawd |
| "Nod Masnach" | Y nodau Masnach a osodir allan yn yr Atodlen |

1.2 Mae'r cyfeiriadau at gymalau, partïon ac Atodlenni yn gyfeiriadau at y cymalau, partïon ac Atodlenni y Cytundeb hwn.

1.3 Mae penawdau'r Cymalau at ddibenion symleiddio cyfeirio yn unig ac ni fyddant yn effeithio ar ddehongliad y Cytundeb hwn.

## 2 Rhoi Trwydded

2.1 Mewn ystyriaeth o'r taliad o £1 (y mae'r Trwyddedwr yn cydnabod ei dderbyn) mae'r Trwyddedwr yn rhoi i'r Trwyddedai yn ystod y Cyfnod, drwydded anecsgliwsif ddi-freindal ac na ellir ei throsglwyddo i ddefnyddio'r Nod Masnach yn y Diriogaeth er mwyn cyflawni ei dyletswyddau a'r gwasanaethau a nodir allan yn y Cytundeb Gwasanaethau yn unig, yn ddarostyngedig i amodau'r Cytundeb hwn.

2.2 Mae'r Trwyddedai yn cydnabod ac yn cytuno fod:

(a) gan y Trwyddedai ddim hawliau i ddefnyddio'r Nod Masnach, ac eithrio fel a ganiateir yn benodol yng nghymal 2.1;

(b) mae perchnogaeth a defnydd y Nod Masnach wedi ei gadw i'r Trwyddedwr at ei ddefnydd a'i fudd ei hun (neu at ddefnydd neu fudd ei drwyddedai neu ei enwebion eraill);

(c) ni fydd y Trwyddedai yn derbyn unrhyw hawliau perchnogaeth yn y Nod Masnach a bydd unrhyw a'r holl ewyllys da a gynhyrchir o ddefnyddio'r Nod Masnach gan y Trwyddedai dan y Cytundeb hwn yn dod i rym ('enure') yn ecsgliwsif er budd y Trwyddedwr; a

(ch) ni fydd yn arddel unrhyw hawl i berchnogaeth o'r Nod Masnach nac i ewyllys da neu enw da yn y Nod Masnach oherwydd defnydd o'r Nod Masnach gan y Trwyddedai neu fel arall.

## 3 Defnydd o'r Nod Masnach

3.1 Mae'r Trwyddedai yn gwarantu ac yn ymgymryd y bydd:

(a) yn defnyddio'r Nod Masnach ar y ffurf a osodir allan yn yr Atodlen ac yn unol â'r Cytundeb hwn yn unig;

(b) yn defnyddio'r Nod Masnach yng nghyswllt ei ymrwymiadau o dan y Cytundeb Gwasanaethau yn unig ac yn unol â'r holl gyfreithiau a rheoliadau perthnasol;

(c) yn rhoi'r gorau yn syth i ddefnydd pellach o'r Nod Masnach os canfyddir fod defnydd y Trwyddedai o'r Nod Masnach yn torri ar y Cytundeb hwn, neu os yw'r Cytundeb Gwasanaethau wedi ei derfynu ac yn fath amgylchiadau bydd yn dinistrio'r holl ddeunydd sydd ganddo yn ei berchnogaeth neu dan ei reolaeth sy'n torri ar gynnwys y Cytundeb hwn, a chadarnhau yn ysgrifenedig fod y broses hon o ddinistrio wedi digwydd, yn ddi-ragfarn i unrhyw hawl neu rwymedi arall y Trwyddedwr; a

(ch) yn darparu pob cymorth rhesymol yn ôl y gofyn gan y Trwyddedwr, ar gost rhesymol y Trwyddedwr, i gaffael a chynnal unrhyw gofrestriadau o'r Nod Masnach.

3.2 Mae'r Trwyddedai yn gwarantu ac yn ymgymryd na fydd yn:

(a) defnyddio unrhyw nodau masnach neu farciau gwasanaeth eraill, enwau parth, geiriau, logos neu symbolau tebyg neu yn ymdebygu y Nod masnach i'r fath raddau y bo'n debygol o greu dichell ('deception') neu ddryswch ('confusion');

(b) rhoi'r argraff i unrhyw barti ei fod yn dal unrhyw hawliau yn y Nod masnach y tu hwnt i'r rhai a roddir yn benodol i'r Trwyddedai o dan y Cytundeb hwn;

(c) defnyddio'r Nod masnach mewn unrhyw fodd a fuasai, ym marn y Trwyddedwr (yn gweithredu'n rhesymol) yn tueddu i ganiatáu iddo ddod yn generig, golli ei hynodrwydd, niweidio unrhyw gofrestriadau pellach o'r Nod masnach, gostwng gwerth masnachol y Nod Masnach neu bod yn niweidiol yn faterol ('materially detrimental') i, neu yn anghyson ag enw da, ewyllys da neu ddelwedd y Trwyddedwr;

(ch) defnyddio'r Nod masnach (boed ar ei ben ei hun neu wedi ei gyfuno gydag unrhyw enw arall, Nod masnach neu ddyfais) ar neu ynglŷn ag unrhyw nwyddau neu wasanaethau ag eithrio yn unol â'r hyn a nodir yn y Cytundeb Gwasanaethau heb ganiatâd penodol y Trwyddedwr yn ysgrifenedig o flaen llaw y fath ganiatâd i gael ei roi neu ei wrthod yn nisgresiwn y Trwyddedwr ei hun yn unig;

(d) gofrestru neu geisio cofrestru unrhyw nod Masnach, marc gwasanaeth, logo, enw parth neu symbol su'n union yr un peth neu yn sylweddol debyg i, neu yn cynnwys y Nod Masnach heb ganiatâd penodol y Trwyddedwr yn ysgrifenedig o flaen llaw, y fath ganiatâd yn cael ei roi neu ei wrthod yn nisgresiwn y Trwyddedwr ei hun yn unig;

(dd) ymwybodol yn gwneud unrhyw beth sy'n amharu ar hawliau'r Trwyddedwr yn y Nod Masnach neu yn unrhyw gofrestriadau neu geisiadau sy'n gysylltiedig â'r Nod Masnach yn unrhyw gofrestriadau neu geisiadau sy'n gysylltiedig â'r Nod Masnach neu sy'n niweidio, gwanhau neu yn gostwng gwerth masnachol, enw da neu ewyllys da y Nod Masnach neu yn y Nod Masnach.

(e) yn datgan fod ganddo unrhyw deitl yn neu berchnogaeth o'r Nod Masnach; nac yn

(f) gweithredu neu honni ei fod yn gweithredu fel asiant y Trwyddedwr neu gwneud unrhyw ddatganiad neu roi unrhyw warant ar ran y Trwyddedwr.

3.3 Mae'r Trwyddedwr yn gwarantu ac yn ymrwymo mai ef ydyw unig berchennog cyfreithio a llesiannol y Nod Masnach a nodir yn rhan A o'r Atodlen a bod ganddo'r hawl i ymrwymo i'r Drwydded hon. Nid yw'r Trwyddedwr yn rhoi unrhyw warantau (boed yn ddatganedig neu yn ymhlyg) ynglŷn â'r Nodau Masnach y cyfeirir atynt yn Rhan B o'r Atodlen ac sydd wedi eu dyfeisio gan y Trwyddedai yn unol â'r Cytundeb Gwasanaethau.

## 4. Cymeradwyo ac Archwilio

4.1 Mae'r Trwyddedai yn gwarantu, cynrychioli ac yn cyfamodi na fydd yn marchnata, defnyddio, rhyddhau neu ddadlennu i'r cyhoedd neu unrhyw drydydd parti unrhyw Ddeunydd sy'n ymgorffori'r Nod Masnach oni bai bod y fath Ddeunydd wedi ei gymeradwyo eisoes o flaen llaw gan y Trwyddedwr.

4.2 Er mwyn osgoi amheuaeth, ni fydd cadarnhad y Trwyddedwr yn unol â cymal 4.1 yn golygu fod y Trwyddedwr wedi penderfynu fod unrhyw Ddeunydd o'r fath yn cydymffurfio ag unrhyw gyfreithiau lleol, rheolau a rheoliadau perthnasol.

**5. Torri gan Drydydd Parti**

5.1 Os fydd y Trwyddedai yn dod yn ymwybodol o unrhyw dorri posibl ar y Nod Masnach, gan gynnwys unrhyw beri coel ('passing off') neu gystadleuaeth annheg ('unfair competition'), neu unrhyw gais i gofrestru nod masnach a allai wrthdaro â neu a allai beri dryswch gyda'r Nod Masnach, bydd y Trwyddedai yn hysbysu'r Trwyddedwr yn ysgrifenedig yn syth gan nodi manylion y torri, y peri coel, y gystadleuaeth annheg neu gais, yn ôl y galw.

5.2 Ni fydd rheidrwydd ar y Trwyddedwr i gymryd unrhyw achos cyfreithiol neu achos arall yn erbyn trydydd partïon. Fodd bynnag, os bydd y Trwyddedwr yn penderfynu cymryd achos yn erbyn unrhyw drydydd parti, y Trwyddedwr ei hun fydd yn cymryd mesurau rhesymol y mae yn ei ystyried yn addas ynglŷn ag unrhyw ddigwyddiad o dorri, peri coel neu, gystadleuaeth annheg, neu ynglŷn â chais i gofrestru Nod Masnach. Bydd y Trwyddedai, ar gais a chost y Trwyddedwr, yn darparu yr holl gymorth rhesymol ynglŷn â'r fath fesurau ac ni fydd hawl gan y Trwyddedai i gymryd achos o'r fath nac i dderbyn unrhyw iawndal a dderbynnir gan y Trwyddedwr ynglŷn â'r fath achos hawliad neu weithrediad.

**6. Cyfnod a Therfynu**

6.1 Bydd y Cytundeb hwn yn cychwyn ar y Dyddiad Gweithredol ac yn parhau hyd nes y'i terfynir neu hyd nes y bydd y Cytundeb Gwasanaethau yn dod i ben oni bai a hyd nes y'i terfynir yn unol â'r darpariaethau sydd yn weddill o'r cymal 6 hen.

6.2 Gall y naill barti neu'r llall derfynu'r Cytundeb hwn yn syth, yn ddi-ragfarn i'w hawliau eraill, trwy roi rhybudd ysgrifenedig i'r parti arall, os fydd y parti arall yn:

(a) cyflawni unrhyw doriad sylweddol ('material breach') o unrhyw rai o ddarpariaethau y Cytundeb hwn, ac, yn achos torri o'r fath y gellir ei gywiro, fethu â chywiro'r cyfryw o fewn 30 niwrnod o dderbyn rhybudd ysgrifenedig yn gosod allan holl fanylion y torri a mynnu ei fod yn cael ei gywiro;

(b) cyflawni cyfres o doriadau ('breaches') neu yn torri ar neu yn ddiffygiol ('default') o'r darpariaethau yn gyson ('persistent breach') (pa un ai o'r un math neu beidio) a pha un ai yw pob toriad (yn unigol neu ar y cyd) yn sylweddol ('material'); neu

(c) mynd i diddymiad (ag eithrio ar gyfer ail-ffurfio ('re-construction') neu gyfuno ('amalgamation'), bod â derbynnydd, gweinyddwr, neu dderbynnydd gweinyddol wedi ei benodi i reoli unrhyw rai o'i asedau, yn gwneud trefniant gwirfoddol gyda'i gredydwyr yn gyffredinol neu yn dioddef canlyniad cyffelyb arall o dan gyfreithiau'r wlad lle y'i sefydlwyd neu ei ymgorfforwyd.

6.3 Gall y Trwyddedwr derfynu'r Cytundeb hwn yn syth, yn ddi-ragfarn i'w hawliau eraill trwy roi rhybudd i'r Trwyddedai, lle bo'r Trwyddedai yn:

(a) mynd trwy newid rheolaeth ('control'), pennir yr un ystyr i rheolaeth ('control') â'r ystyr a roddir iddo yn adran 1124 Deddf Trethi Corfforaethol 2010;

(b) herio dilysrwydd y Nod Masnach neu unrhyw rai o geisiadau/gofrestriadau Nod Masnach y Trwyddedwr sydd yn bodoli yn awr neu a fydd yn bodoli yn y dyfodol;

(c) yn newid ei ddulliau o weithredu ei fusnes mewn ffordd a fyddai, yn nisgresiwn y Trwyddedwr ei hun yn unig, yn tanseilio gwerth neu yr ewyllys da yn y Nod Masnach; neu

(ch) yn gweithredu mewn unrhyw fodd a allasai ym marn y Trwyddedwr yn ei ddisgresiwn llwyr ei hun ddwyn anfri neu amarch ar y Trwyddedwr a/neu y Nod Masnach.

6.4 Bydd Cymal 8 a Chymal 9 o'r Cytundeb hwn, ynghyd â holl ddarpariaethau'r Cytundeb hwn sydd er mwyn rhoi effaith i'w hystyron angen iddynt oroesi terfynu'r Cytundeb yn llwyr neu yn rhannol yn parhau mewn llawn grym ac effaith wedi'r terfynu.

## 7. Effeithiau Terfynu

7.1 Ar ddiwedd neu ar derfyn y Cytundeb hwn, am ba reswm bynnag, bydd y Trwyddedai yn:

(a) dod i ben â defnyddio'r Nod Masnach yn syth;

(b) i'r graddau sy'n rhesymol ymarferol yn cael gwared ar yr holl Ddeunydd yn ei feddiant neu o fewn ei reolaeth sydd yn ymwneud â neu yn gysylltiedig â'r Nod Masnach yn unol â chyfarwyddiadau y Trwyddedwr;

(c) i'r graddau sy'n rhesymol ymarferol sicrhau fod yr holl daflenni, neu ddeunydd arall yn ei feddiant neu o dan ei reolaeth sydd yn cynnwys ffurfiau y Nod Masnach yn cael eu dileu neu eu gwaredu yn unol â chyfarwyddiadau'r Trwyddedwr o fewn 28 niwrnod o ddyddiad terfynu'r Cytundeb hwn;

(ch) o fewn yr amser a ddisgwylir yn rhesymol gan y Trwyddedwr, gweithredu'r holl ddogfennau angenrheidiol, gan gynnwys pwerau atwrnai, ar gyfer canslo'r Trwyddedai fel defnyddiwr cofrestredig neu drwyddedai cofrestredig.

## 8. Indemniad

8.1 Bydd y Trwyddedai bob amser (er gwaethaf terfynu'r Cytundeb hwn) yn atebol am, yn indemnio y Trwyddedwr (ynghyd â'i swyddogion, ei weision a'i asiantau) a chadw'r Trwyddedwr wedi ei indemnio rhag ac yn erbyn unrhyw a phob atebolrwydd, colled, niwed, dirwyon, costau (gan gynnwys costau cyfreithiol), treuliau proffesiynol neu unrhyw dreuliau/costau eraill o ba natur bynnag a oddefir neu a ddioddefir gan y Trwyddedwr yn deillio o neu yn gysylltiedig â:

(a) unrhyw hawliau gan drydydd partïon yn deillio o'r ddarpariaeth, o farchnata a/neu hyrwyddo unrhyw wasanaeth neu gynnyrch gas y

Trwyddedai a/neu o ddefnydd y Trwyddedai o'r Nod Masnach ('Hawliad Trydydd Parti') sydd yn torri y Cytundeb Gwasanaethau; ac

(b) unrhyw dorri gan y Trwyddedai o'r Drwydded hon.

8.2 Bydd y Trwyddedwr, yn ei ddisgresiwn llwyr â'r hawl i amddiffyn unrhyw Hawliad Trydydd Parti, neu yn mynnu fod y Trwyddedai (yn ddarostyngedig i'r rhagdybiaeth y bydd y Trwyddedwr yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw fân dreuliau y Trwyddedai) yn amddiffyn yr Hawliad Trydydd Parti.

8.3 Os bydd y Trwyddedwr yn llwyr hysbys o fanylion rhedeg achos amddiffyn yr Hawliad Trydydd Parti, bydd y Trwyddedai yn:

(a) cadw'r Trwyddedwr yn llwyr hysbys o fanylion rhedeg achos amddiffyn yr Hawliad;

(b) yn cyd-fynd â holl geisiadau rhesymol y Trwyddedwr ynglŷn â rhedeg achos yr amddiffyniad; a

(c) ddim yn setlo'r Hawliad Trydydd Parti heb gytundeb y Trwyddedwr, y gellir ei roi neu ei wrthod yn nisgresiwn llwyr y Trwyddedwr.

8.4 Bydd y Trwyddedwr bob amser (er gwaethaf terfynu'r Cytundeb hwn) yn atebol, am; yn indemnio y Trwyddedai (ynghyd â'i swyddogion, ei weision a'i asiantau) a chadw'r Trwyddedai wedi ei indemnio rhag ac yn erbyn unrhyw a phob atebolrwydd, colled, niwed, dirwyon, costau (gan gynnwys costau cyfreithiol), treuliau proffesiynol neu unrhyw gostau eraill o ba natur bynnag a oddefir neu a ddioddefir gan y Trwyddedai yn deillio o neu yn gysylltiedig â defnydd y Trwyddedai o'r Nod Masnach yn unol â'r Cytundeb Gwasanaethau neu'r Drwydded hon sy'n torri ar hawliau unrhyw drydydd parti.

## 9. Cyfrinachedd

9.1 Mae'r partïon yn cytuno, ac eithrio fel y mynnir gan y gyfraith neu unrhyw awdurdod rheoleiddio perthnasol, fod yr holl wybodaeth sy'n ymwneud â'r Cytundeb hwn neu fusnes a materion busnes y naill barti a'r llall yn cael ei drin yn gyfrinachol, ac ni fydd yn cael ei ddatgelu i unrhyw drydydd parti heb ganiatâd ysgrifenedig o flaen llaw y parti y mae'r wybodaeth yn cyfeirio ato, ac eithrio lle bo unrhyw wybodaeth:

(a) yn neu fe fydd (ac eithrio o ganlyniad i dorri'r Cytundeb hwn) yn eiddo i'r cyhoedd; neu

(b) ym meddiant y parti sy'n derbyn mewn ffordd sydd ddim oherwydd datgelu gan y parti arall; neu

(c) wedyn yn dod yn gyfreithiol i feddiant y parti sy'n derbyn gan drydydd parti heb fod unrhyw ddyletswydd am gyfrinachedd wedi ei osod ar y cyfryw drydydd parti;

(ch) y mae'n rhaid ei ddatgelu yn unol â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

## 10. Newid

Ni fydd unrhyw newid, addasiad neu amrywiad o unrhyw rai o'r telerau neu amodau yn y Cytundeb hwn yn ddilys oni bai ei fod yn ysgrifenedig ac wedi ei arwyddo gan y ddau barti i'r Cytundeb hwn.

## 11. Rhybudd

11.1 Bydd unrhyw rybudd sydd angen ei roi neu y caniateir iddo gael ei roi dan y Cytundeb hwn yn ysgrifenedig ac fe fydd yn cael ei gyfleu trwy law neu drwy'r post cofrestredig i'r cyfeiriad perthnasol a nodir uchod neu unrhyw gyfeiriad arall y bydd y cyfryw barti yn ei ddynodi o dro i dro i'r gweddill drwy rybudd ysgrifenedig.

11.2 Tybir y bydd rhybudd o'r fath wedi ei dderbyn gan y parti y cyfeiriwyd y rhybudd iddo dau ddiwrnod gwaith wedi'r dyddiad y cafodd ei anfon os yw'r rhybudd neu ddogfen arall wedi ei hanfon drwy bost cofrestredig neu yn unol â'r amser y cyfleuwyd os cafodd ei gludo â llaw.

## 12. Ildiad hawl

Ni fydd methu ag ymarfer, neu oedi ar ran y naill barti neu y llall i ymarfer neu orfodi unrhyw hawl o dan y Cytundeb hwn yn gweithredu fel ildiad hawl, ac ni fydd ymarfer ar unrhyw hawliau yn unigol neu yn rhannol yn atal unrhyw ymarfer arall neu ymarfer yn y dyfodol ar yr hawl hwnnw neu ymarfer o unrhyw hawl, pŵer neu fraint arall. Os bydd y naill barti neu'r llall yn benodol yn ildio unrhyw doriad, ni fydd ildiad o'r fath yn gweithredu fel ildiad o doriad tebyg ar achlysur arall, neu fel ildiad o unrhyw doriad arall.

## 13. Darpariaethau Cyffredinol

13.1 Os yw unrhyw ran, cyfnod neu ddarpariaeth yn y Cytundeb hwn yn cael ei ddatgan yn anghyfreithlon, neu nad oes modd ei orfodi'n gyfreithiol neu yn gwrthdaro â'r gyfraith o unrhyw awdurdodaeth berthnasol, ni effeithir ar ddilysrwydd na'r gallu i orfodi'n gyfreithiol y gweddill o'r Cytundeb hwn trwy hyn.

13.2 Ac eithrio yng nghyswllt cwmnïau grŵp y partïon ni fydd Deddf Cytundebau (Hawliau Trydydd Partïon) 1999 (Contracts (Rights of Third Parties) Act 1999) yn berthnasol i'r Cytundeb hwn, ac ni fwriedir i unrhyw drydydd parti ddal unrhyw hawl na budd o dan y Cytundeb hwn na'r hawl i'w orfodi.

13.3 Mae'r Cytundeb hwn yn disodli unrhyw ddealltwriaethau neu gytundebau a wnaed neu sy'n bodoli rhwng y partïon cyn dyddiad y Cytundeb hwn ac mae'n cynrychioli yr holl ddealltwriaeth rhwng y partïon ynglŷn â'i destun cyn belled â bod hyn ddim yn eithrio unrhyw atebolrwydd y buasai gan y parti i'r llall fel arall ynglŷn â datganiadau twyllodrus neu esgeulus a wnaed cyn dyddiad y Cytundeb hwn.

13.4 Gellir gweithredu'r Cytundeb hwn mewn unrhyw nifer o wrthrannau (y tybir y bydd pob un o'i hystyried gyda'i gilydd yn cynrychioli un Cytundeb a tybir y bydd pob un ohonynt yn unigol yn un gwreiddiol) gyda'r un effaith â phetai'r llofnodion ar bob un o'r gwrth rannau yr un fath â'r ddogfen wreiddiol.

13.5 Mae'r partïon yn cytuno i weithredu y fath ddogfennau pellach a darparu pob cymorth rhesymol y gellir yn rhesymol gofyn amdano gan y parti arall er mwyn rhoi effaith i'r Cytundeb hwn ac ar gost y Trwyddedwr i ddarparu cymorth rhesymol i gynorthwyo'r Trwyddedwr i sicrhau a chynnal unrhyw gofrestriadau Nod Masnach yn unrhyw diriogaeth. Mae'r Trwyddedai yn cytuno (ar gais y Trwyddedwr) i weithredu ar ei gost ei hun unrhyw ddogfennau a chymryd yr holl gamau y gellid yn rhesymol eu mynnu er mwyn cofrestru neu roi ar gof a chadw y drwydded a roddir gan y Cytundeb hwn a'r diddymiad cyferbyniol i'r fath gofrestriad neu gofnod ar gof a chadw ar derfyn neu pan fo'r Cytundeb hwn am ba reswm bynnag yn dod i ben.

13.6 Ni fydd gan unrhyw barti i'r Cytundeb hwn unrhyw hawl nac awdurdod, ac ni fyddent yn gwneud unrhyw weithred, yn cytuno i unrhyw gytundeb, gwneud unrhyw ddatganiad, rhoi unrhyw warant, ennyn unrhyw atebolrwydd, derbyn unrhyw rwymedigaeth, boed yn benodol neu yn ymhlyg, o unrhyw fath ar ran y parti arall ac ni fydd yn ymrwymo y parti arall mewn unrhyw ffordd neu dal ei hun allan i fod yn gysylltiedig â neu yn gweithredu mewn unrhyw ffordd ar ran y parti arall.

13.7 Ni fydd y Trwyddedai yn aseinio, trosglwyddo, arwystio neu ymdrin mewn unrhyw ffordd arall ag unrhyw rai o'i hawliau neu ei gyfrifoldebau o dan y Cytundeb hwn. Gall y Trwyddedwr aseinio'r Nod Masnach i unrhyw drydydd parti cyn belled â bod y cyfryw aseinai yn cymryd y Nod Masnach yn ddarostyngedig i'r hawliau a roddir i'r Trwyddedai dan y Cytundeb hwn a bydd y Trwyddedai yn cyflawni unrhyw aseiniad neu gytundeb newyddiad ('novation') a geisir gan y Trwyddedwr yn y cyswllt hwn.

## 14 Cyfraith Lywodraethol ac Awdurdodaeth

Llywodraethir y Cytundeb hwn ac ystyrir ei fod yn gyson â chyfreithiau Cymru a Lloegr ac mae'r partïon yn derbyn awdurdod ecscliwsif Llysoedd Cymru a Lloegr.

ARWYDDWYD fel GWEITHRED dros ac ar ran y Trwyddedai

.........................................................................................
CYFARWYDDWR

ym mhresenoldeb

..........................................................................

..........................................................................

..........................................................................

..........................................................................
enw a chyfeiriad y Tyst

ARWYDDWYD dros ac ar ran y Trwyddedwr

.........................................................................................

## ATODLEN

## Nod Masnach